

# ATEBION A AWGRYMR

Dyma rai atebion a awgrymir ar gyfer nifer o'r gweithgareddau/cwestiynau yn y Canllaw Adolygu. Nid oes atebion ar gael ar gyfer pob un, yn enwedig yn Unedau 1 a 3, oherwydd natur asesiadau dan rheolaeth Troseddeg Lefel 3.

## Uned 1 Newid Ymwybyddiaeth o Drosedd

### Gweithgaredd 1.1, tudalen 8

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Chwilio'r we, tudalen 9

1. Mae'r we ddofn yn cyfeirio at rannau o'r rhyngwrwyd nad ydyn ni eu defnyddio bob dydd fel arfer. 4% yn unig o'r rhyngwrwyd sy'n cael ei defnyddio y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, mae'r we dywyll yn cyfeirio at y 96% sy'n weddill o'r rhyngwrwyd y mae'n bosibl cael mynediad ati drwy we-lywio drwy safleoedd unigol, cyfnodolion ac archifau â mynediad cyfyngedig, ac ati. Dydy rhai rhannau o'r we ddofn ddim yn weladwy neu nid yw'n bosibl dod o hyd iddyn nhw a dydyn nhw ddim yn cael eu monitro'n rheolaidd. Y we dywyll yw'r enw ar y rhannau hyn o'r we ddofn. Mae'r we dywyll yn cyfeirio at rannau o'r rhyngwrwyd sydd wedi'u cuddio gan haenau sy'n celu hunaniaeth. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i ryngweithio gyda'r we dywyll heb adael unrhyw ôl; fodd bynnag, mae'n bosibl bydd angen meddalwedd amgryptio i wneud hyn gan ei bod yn aml yn cuddio tarddiad y data. (Ffynhonnell: <https://www.youtube.com/watch?reload=9&v=9nLWbeWWw3E>)
2. Mae'n bosibl cael mynediad at y we dywyll drwy addasu dulliau o gloddio drwy safleoedd unigol, is-dudalennau, cyfnodolion neu archifau â mynediad cyfyngedig, ac ati. I gael mynediad at y we dywyll, yn aml bydd angen meddalwedd amgryptio fel TOR (The Onion Router). Mae TOR yn llwybro popeth drwy gyfres o gyfrifiaduron wedi'u hamgryptio ar draws y byd, gan olygu nad yw'n bosibl dod o hyd i leoliadau. (Ffynhonnell: <https://www.youtube.com/watch?reload=9&v=9nLWbeWWw3E>)
3. Gwnaeth Facebook ryddhau ail URL ar gyfer ei safle ac mae mynediad ato drwy TOR (The Onion Router) yn unig. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i fewngofnodi'n ddiennw, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae Facebook yn cael ei fonitro'n ofalus neu ei flocio. (Ffynhonnell: <https://www.youtube.com/watch?reload=9&v=9nLWbeWWw3E>)
4. Mae'r Uned Troseddau Seiber Genedlaethol yn arwain ymateb y DU i droseddau seiber, yn cefnogi partneriaid gyda galluoedd arbenigol ac yn cydlynu'r ymateb cenedlaethol i'r bygythiadau mwyaf difrifol gan droseddau seiber. Gall yr Uned Troseddau Seiber Cenedlaethol ymateb yn gyflym iawn i fygythiadau sy'n newid yn gyflym ac mae'n cydweithio gyda phartneriaid i leihau troseddau seiber drwy wneud y canlynol:
  - Darparu ymateb ymchwiliadol grymus a gweledol iawn i'r achosion mwyaf difrifol o droseddau seiber: mynd ar ôl troseddwr seiber ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

- Gweithio mewn ffordd ragweithiol i dargedu gwendidau troseddol ac atal cyfleoedd troseddol.
- Cynorthwyo'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith ehangach i fynd ar ôl y rhai sy'n defnyddio'r rhyngwyd neu TGCh at ddibenion troseddol. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth technegol, strategol a chuddwybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chefnogi hyfforddi'r Unedau Troseddau Seiber ym mhob Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (Regional Organised Crime Unit: ROCU).
- Hybu newid sylweddol yng ngallu cyffredinol y DU i fynd i'r afael â throseddau seiber, cefnogi partneriaid ym myd diwydiant a gorfodi'r gyfraith i amddiffyn eu hunain yn well yn erbyn troseddau seiber. (Ffynhonnell: <http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/national-cyber-crime-unit>)

5. Ar 21 Hydref 2015 cafodd TalkTalk ei hacio a chafwyd mynediad at fanylion personol bron i 157,000 o gwsmeriaid.

'Dyweddodd TalkTalk:

- cafwyd mynediad at fanylion personol 156,959 o gwsmeriaid.
- O blith y cwsmeriaid hynny, cafodd rhifau 15,656 o gyfrifon banc a chodau didoli eu dwyn.
- Cafodd rhifau 28,000 o gardiau credyd a debyd wedi'u dwyn eu "gwneud yn aneglur" ac 'nid yw'n bosibl eu defnyddio ar gyfer trafodion ariannol'.

Honnodd yr heddlu fod bachgen 16 oed ar fechnïaeth ac mai ef oedd y pedwerydd unigolyn i gael ei arestio mewn cysylltiad â'r hacio. (Ffynhonnell: <https://www.bbc.co.uk/news/business-34743185>)

## Gweithgaredd 1.2. tudalen 10

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

## Chwilio'r we, tudalen 10

1. Trosedd gasineb yw unrhyw drosedd sy'n cael ei chyflawni oherwydd rhagfarn yn erbyn hil, crefydd neu gred, anabledd, hunaniaeth drawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.
2. Y categorïau o droseddau casineb yw: hil, crefydd neu gred, anabledd, hunaniaeth drawsryweddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
3. Cam-drin geiriol/sarhad, aflonyddu, bwlio, ymosodiad corfforol, ymosodiad rhywiol, llofruddiaeth, galwadau ffôn sarhaus/anweddus, difrod i eiddo, dwyn, twyll, bwrgleriaeth, llythyrau cas/graffiti sarhaus.
4. Ffonio 999 neu 112; ffonio'r heddlu; [www.report-it.org.uk](http://www.report-it.org.uk); cysylltu gydag Europia. (Ffynhonnell: <https://www.youtube.com/watch?v=kkgVZ5CzyqA>)

## Gweithgaredd 1.3, tudalen 11

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

## Datblygu ymhellach, tudalen 11

Mae'r achos hwn yn herio'r cysyniad mai benywod yw dioddefwyr cam-drin domestig fel arfer, oherwydd roedd Alex Skeel yn ddyn wnaeth ddiodeff o gam-drin domestig. Honnodd Alex Skeel ei fod '10 diwrnod i ffwrdd o farwolaeth' cyn iddo dderbyn cymorth gan yr awdurdodau. (Ffynhonnell: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-beds-bucks-herts-43799850>)

Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth am yr achos: 'Alex Skeel: Domestic Abuse Survivor was "Days From Death"' (2018, 17 Ebrill), BBC News, <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-beds-bucks-herts-43799850>.

## Gweithgaredd 1.4, tudalen 12

Rhesymau personol		Rhesymau cymdeithasol a diwylliannol	
Ofn	Cam-drin domestig Troseddau er anrhydedd Troseddau casineb	Diffyg gwybodaeth	Crwydraeth Troseddau coler wen Seiberfwlio
Cywilydd	Cam-drin domestig Treisio Troseddau rhyw	Cymhlethdod	Troseddau coler wen
Diffyg diddordeb	Difrod troseddol Taflu sbwriel Puteindra Crwydraeth Yfed dan oed Lawrlwytho cerddoriaeth yn anghyfreithlon Camddefnyddio cyffuriau Mân ladrad	Diffyg diddordeb ar ran y cyfryngau	Ymosod cyffredin Fandaliaeth Difrod troseddol Taflu sbwriel Crwydraeth Puteindra Yfed dan oed Lawrlwytho cerddoriaeth yn anghyfreithlon Mân ladrad
Heb effeithio ar yr unigolyn	Ymosod cyffredin Fandaliaeth Difrod troseddol Taflu sbwriel Crwydraeth Puteindra Camddefnyddio cyffuriau Lawrlwytho cerddoriaeth yn anghyfreithlon Troseddau casineb Hunanladdiad â chymorth Yfed dan oed Mân ladrad	Diffyg pryder cyhoeddus ar hyn o bryd	Ymosod cyffredin Fandaliaeth Difrod troseddol Taflu sbwriel Lawrlwytho cerddoriaeth yn anghyfreithlon Puteindra Yfed dan oed Mân ladrad
		Troseddau sy'n rhwym wrth ddiwylliant	Troseddau er anrhydedd

## Chwilio'r we, tudalen 14

- O bob 1,000 achos o dreisio, 230 sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu.
- Bydd 20% o fyfyrwyr benywaidd yn rhoi gwybod am ymosodiadau rhywiol i'r heddlu.
- Y tri rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â rhoi gwybod am achos o dreisio yw:
  - Roedd 20% yn ofni byddai rhywun yn dial arnyn nhw
  - Roedd 13% yn credu na fyddai'r heddlu yn gwneud dim i helpu
  - Roedd 13% yn credu ei fod yn fater personol.

Fodd bynnag, rhoddodd 30% reswm arall, neu wnaethon nhw ddim rhoi unrhyw reswm.
- Y tri rheswm mwyaf cyffredin dros roi gwybod am achos o dreisio yw:
  - Roedd 28% eisiau amddiffyn yr aelwyd neu'r dioddefwr rhag troseddau eraill gan y troseddwr.
  - Roedd 25% eisiau atal y digwyddiad neu ei atal rhag digwydd eto neu fynd yn waeth.
  - Roedd 21% eisiau gwella gwyladwriaeth yr heddlu neu roedden nhw'n credu bod ganddyn nhw ddyletswydd i wneud hynny.

(Ffynhonnell: <https://www.rainn.org/statistics/criminal-justice-system>)

**Gweithgaredd 1.5, tudalen 17**

dyfarwyd 4 marc gan fod yr ateb yn cynnwys esboniad clir a manwl o ganlyniadau peidio ag adrodd am droseddau. Mae enghreifftiau perthnasol wedi'u cynnwys i gryfhau'r esboniad ac mae'r ateb wedi'i ysgrifennu'n dda gyda defnydd o derminoleg allweddol. Yn ddigonol i gael MPA 4 marc. Gallai fod wedi cynnwys cysylltiad â briff yr aseiniad, fodd bynnag ni all marciau gael eu cyfyngu o ganlyniad i hyn gan nad oes cyfeiriad uniongyrchol at hyn ym meini prawf y band marciau.

**Gweithgaredd 1.6, tudalen 18**

Term pwysig	Diffiniad
Gorliwio	Gwneud i ddigwyddiadau (yn enwedig mewn adroddiadau papur newydd) ymddangos yn fwy byw, syfrdanol, ac ati, nag ydyn nhw mewn gwirionedd.
Goradrodd	Dweud bod rhywbeth wedi digwydd fwy o weithiau nag y digwyddodd mewn gwirionedd.
Mewnwthiol	Tueddu i darfu ar feddyliau neu breifatrwydd rhywun.
Glamoreiddio	Gwneud i rywbeth ymddangos yn well nag yw mewn gwirionedd, ac felly yn fwy atyniadol.
Camgynrychioli	Camddisgrifio syniad, barn neu sefyllfa.
Dyrchafu	Rhoi disgrifiad neu gynrychioliad cymeradwy o rywbeth, yn enwedig os nad oes cyfiawnhad dros hynny.
Codi bwganod	Lledaenu straeon sy'n codi ofn ar y cyhoedd.
Ychwanegu at rywbeth	Ychwanegu neu newid rhai manylion stori, fel arfer i'w gwneud yn fwy diddorol neu'n fwycyffrous.

**Chwilio'r we, tudalen 20**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Gweithgaredd 1.7, tudalen 21**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Gweithgaredd 1.8, tudalen 22**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Chwilio'r we, tudalen 22**

1. 'Mae troseddwr yn cael eu stereoteipio fel pobl dlawd, sydd heb gael addysg, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried bod hyn yn golygu eu bod yn ddideimlad ac nad yw'n bosibl ymddiried ynddyn nhw.'
2. 'Mae'r stereoteipiau hyn yn helpu i esbonio pam mae'r cyhoedd yn ofni troseddu ac yn teimlo'n flin yn ei gylch, a hefyd yn fwy cefnogol o bolisiau mwy llym.'
3. 'Gallai ymddangos fod cyfiawnhad dros y gorgynrychioliad hwn o unigolion statws isel, oherwydd y stereoteipiau sy'n cysylltu statws isel â natur ddrwg a dideimlad. Mae'r cysylltiad hwn rhwng y farn bod gan droseddwr statws cymdeithasol isel a theimlo'n flin a chael agwedd gosbol tuag at drosedd yn awgrymu y gallai anghydraddoldeb cymdeithasol cynyddol a methiant i roi sylw i anfantais gyfrannu at hyd yn oed mwy o alw gan y cyhoedd am bolisiau llym.'
4. 'Mae'r galw hwn am ddedfrydau mwy llym wedi arwain felly at gynnydd ym mhoblogaeth y carchardai.'
5. 'Bydd angen diwygiadau ychwanegol i fynd i'r afael â galwadau cyson gan y cyhoedd am bolisiau mwy llym. Gallai ymdrechion gael eu gwneud i newid barn a chanfyddiad unigolion

am droseddwyr. Dylai grwpiau ymgyrchu gwleidyddol ac eiriolaeth geisio gwanhau tueddiadau cosbol drwy wrthwynebu canfyddiadau stereoteipaidd am droseddwyr, yn enwedig troseddwr di-drais neu'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa cyn sefyll eu prawf. Gallai polisïau sy'n lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol, fel gwella cyrhaeddiad addysgol, hefyd arwain at lai o alw gan y cyhoedd am bolisïau llym yn ogystal â lleihau troseddu a'r arfer o erlid pobl agored i niwed.'

(Ffynhonnell: <https://www.lawgazette.co.uk/commentary-and-opinion/debunking-stereotypes-of-criminals/5053490.article>)

### **Gweithgaredd 1.9, tudalen 23**

1. Mae ystadegau yn cael eu casglu gan yr heddlu. Pan fydd rhywun yn rhoi gwybod am drosedd a bydd yr heddlu yn ei chofnodi fel trosedd bydd yn cael ei hystyried yn Drosedd a gofnodwyd gan yr Heddlu (Police Recorded Crime: PRC) a bydd y llywodraeth (Y Swyddfa Gartref) yn casglu ac yn cyhoeddi'r data hwn. Yr enw ar y math hwn o ddata yw Ystadegau'r Swyddfa Gartref. Gall data hefyd ddod o alwadau 999 a gwyliadwriaeth.  
Gall ystadegau am drosedd gael eu casglu drwy arolygon dioddefwyr hefyd. Mae arolwg dioddefwyr yn cynnwys cyfres o gwestiynau am erledigaeth a/neu brofiadau o droseddu. Cafodd arolygon dioddefwyr eu cyflwyno i'r DU yn 1972 gydag Arolwg Troseddu Prydain. Yr enw ar yr arolwg hwn erbyn hyn yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (ers 2012). Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cael ei anfon i aelwydydd ac mae'n gofyn cyfres o gwestiynau, gan gynnwys cwestiynau ynghylch troseddau yn erbyn oedolion, plant, aelwydydd, cymdeithas a hyd yn oed busnesau.
2. Yr heddlu, carchardai, Gwasanaeth Prawf, DVLA, CThEM, llysoedd.
3. Ymhlith rhai o ddibenion casglu ystadegau troseddu mae'r canlynol:
  - Rhoi gwybodaeth i'r llywodraeth a'r heddlu am dueddiadau mewn gweithgaredd troseddu/troseddol.
  - Datblygu polisïau lleihau trosedd.
  - Codi ymwybyddiaeth am droseddau penodol a'r canlyniadau fel yfed a gyrru a gyrru ar gyffuriau.
  - Rhoi gwybodaeth i reoli adnoddau (llywodraeth a'r heddlu).
  - Amddiffyn dioddefwyr posibl .
  - Sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am lwyth gwaith a mentrau'r heddlu.
  - Codi ymwybyddiaeth am droseddau 'newydd' sy'n dod i'r amlwg, fel troseddau technolegol.

## Gweithgaredd 1.10, tudalen 26

Ymgyrch dros newid: Deddf Sarah		Ymgyrch dros newid: Brexit	
Diben yr ymgyrch (newid polisi, codi ymwybyddiaeth, ac ati)	Cyflwyno cyfraith i roi hawl cyfreithiol i rieni neu ofalwyr ofyn yn ffurfiol i'r heddlu a oedd gan rywun sy'n agos at blant gofnod troseddol am droseddau rhyw yn erbyn plant.	Diben yr ymgyrch (newid polisi, codi ymwybyddiaeth, ac ati)	Er mwyn caniatáu newid cyfansoddiadol yn aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Dinasyddion Prydain i bleidleisio i adael yr UE
Prif sylw (cyfraith trosedd, cyfraith gyfansoddiadol neu gyfraith arall)	Cyfraith trosedd	Prif sylw (cyfraith trosedd, cyfraith gyfansoddiadol neu gyfraith arall)	Cyfraith gyfansoddiadol
Prif gefnogwyr yr ymgyrch (unigolion/sefydliadau, ac ati)	Unigolion – rhieni (ar ôl digwyddiad trasig) <i>News of the World</i>	Prif gefnogwyr yr ymgyrch (unigolion/sefydliadau, ac ati)	Roedd cymhelliad gwleidyddol i'r ymgyrch, a'r prif gefnogwyr oedd gwleidyddion fel Boris Johnson a Michael Gove.
Ymgyrch genedlaethol neu leol	Cenedlaethol	Ymgyrch genedlaethol neu leol	Cenedlaethol
Dulliau/cyfryngau'r ymgyrch	<i>News of the World</i> – deiseb Aeth y fam i ddigwyddiadau fel Cynhadledd Ffederasiwn yr Heddlu a digwyddiadau codi arian	Dulliau/cyfryngau'r ymgyrch	Dadleuon teledu ar amseroedd brig, sylw yn y papurau newydd, posteri, gwrthdystiadau
Cefnogaeth enwogion	Na. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gan y cyfryngau yn gyffredinol, yn enwedig y <i>News of the World</i>	Cefnogaeth enwogion	Elizabeth Hurley, Michael Caine, Joan Collins, yr Arlywydd Donald Trump a Katie Hopkins
Llwyddiant (a oedd yr ymgyrch yn llwyddiannus, neu'n rhannol lwyddiannus? Pa newidiadau ddaeth yn ei sgil?)	Roedd yn llwyddiannus oherwydd cyflwynodd y Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw yn erbyn Plant yn 2011 ar draws Cymru a Lloegr (yn dilyn cynllun peilot yn 2008). Yn ôl BBC News (2013), roedd bron 5,000 o geisiadau yn gofyn am ddatgelu troseddwyr rhyw a oedd yn byw yn lleol, ac roedd dros 700 o baedoffiliaid wedi'u hadnabod ers dechrau'r cynllun.	Llwyddiant (a oedd yr ymgyrch yn llwyddiannus, neu'n rhannol lwyddiannus? Pa newidiadau ddaeth yn ei sgil?)	Roedd y bleidlais yn llwyddiant oherwydd pleidleisiodd y DU gyda mwyafrif o 52% i 48% i adael yr Undeb Ewropeaidd  Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, gellir dadlau nad yw wedi bod yn gwbl llwyddiannus eto gan nad yw Prydain wedi gadael yr UE yn ffurfiol

## Gweithgaredd 1.11, tudalen 33

Cwestiynau 1–6 nid oes atebion wedi'u darparu.

Cryfderau	Cyfngiadau
<ul style="list-style-type: none"><li>• Delweddau pwerus/emosiynol i ddenu'r gynulleidfa.</li><li>• Cerddoriaeth sy'n addas i'r ymgyrch.</li><li>• Delweddau cofiadwy sy'n gwneud i'r gwyliwr deimlo'n emosiynol – bydd yn fwy tebygol o gyfrannu neu ymateb i'r hysbyseb.</li><li>• Cefnogaeth rhywun enwog yn ei gwneud yn fwy cofiadwy</li><li>• Mae'n cyrraedd cynulleidfa eang oherwydd nifer y gwylwyr, yn enwedig yn ystod yr oriau brig.</li><li>• Gall hysbysebu ar y teledu gymryd sawl munud i godi ymwybyddiaeth ymhlith y gynulleidfa ynghyd â chynnwys testun a gwybodaeth am sut i gyfrannu. Mae'n galluogi'r gwyliwr i ddeall ac ymgysylltu â'r wybodaeth, o'i gymharu â phoster y mae'r gynulleidfa yn ei weld am eiliadau oni bai eu bod yn aros i'w ddarllen.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn ddrud i'w cynhyrchu, ac yn aml dydyn nhw ddim ar gael i ymgyrchoedd bach oherwydd y gost.</li><li>• Bydd dangos hysbysebion yn ystod oriau brig yn cynyddu'r gost, felly mae'n bosibl na fydd y gynulleidfa darged mor eang â'r hyn a fwriadwyd.</li><li>• Gall llawer o bobl osgoi hysbysebion os yw rhaglen wedi cael ei recordio neu os nad ydyn nhw'n talu digon o sylw.</li><li>• Dydy llawer o bobl ddim yn gwyllo teledu byw oherwydd apiau fel Netflix neu ITV Hub, ac ati.</li><li>• Gall hysbysebion fod yn graffig iawn o ran eu delweddau, a gall hyn wneud i wylwyr deimlo'n anghyfforddus neu ypsetio.</li><li>• Effaith negyddol ar wylwyr agored i niwed.</li></ul>

## Gweithgaredd 1.12, tudalen 34

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

## Chwilio'r we, tudalen 35

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

## Chwilio'r we, tudalen 36

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

## Chwilio'r we, tudalen 39

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

## Gweithgaredd 1.13, tudalen 40

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

## Gweithgaredd 1.14, tudalen 45

- Does dim ystadegau yn y paragraff i gefnogi pam mae angen yr ymgyrch dros newid. Byddai ystadegau yn gysylltiedig â cham-drin domestig neu ystadegau yn seiliedig ar y dioddefwr nodweddiadol yn addas, yn enwedig gan fod yr ymgeisydd yn ceisio targedu menywod.
- Does dim cyfeiriad yn y paragraffau at astudiaeth achos i gefnogi'r rhesymu.
- Dydy'r paragraff ddim yn cynnwys digon o fanylion am amcanion yr ymgyrch na'i llwyddiant posibl, ac mae'n fyr iawn.
- Does dim cyfeiriad at unrhyw ymgyrchoedd dros newid sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n cefnogi'r cyfiawnhad, fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn angenrheidiol.
- Does dim digon o fanylder yn y paragraff i haeddu 15 marc y MPA; fodd bynnag, un paragraff yn unig o'r MPA cyfan sydd yma.
- Does dim digon o ddefnydd o iaith berswadiol, ac o ganlyniad nid yw'r cyfiawnhad wir yn argyhoeddi.

## Uned 2 Damcaniaethau Troseddegol

### Gweithgaredd 2.1, tudalen 50

N	E	C	M	M	D	A	D	Y	Y	T	Q	S	S	J
O	A	M	C	Y	M	H	A	R	U	U	B	A	U	C
S	C	I	R	W	H	N	A	S	R	M	B	N	E	Y
W	T	C	T	D	C	I	S	B	E	P	I	C	R	F
R	U	U	I	I	M	O	I	R	N	C	H	S	S	R
G	S	M	A	F	E	E	N	S	E	P	C	I	E	U
U	R	T	T	F	N	I	N	W	A	A	R	Y	T	I
T	E	J	F	I	S	O	F	I	D	Y	S	N	C	T
R	U	Y	G	N	R	O	L	E	I	G	G	A	A	H
O	S	D	M	I	E	H	M	D	D	S	B	U	D	I
S	R	B	C	A	A	H	N	W	A	F	O	I	S	O
E	E	N	N	D	M	F	K	D	T	P	C	A	S	L
D	A	C	U	G	J	N	O	R	M	A	U	P	H	O
D	C	E	B	H	G	W	Y	R	E	D	D	I	R	C
G	W	E	R	T	H	O	E	D	D	A	N	C	E	T

### Profi eich hun, tudalen 50

1. Chwerthin ar ben rhywun, ei anwybyddu neu wrthod siarad gyda'r unigolyn a galw enwau arno.
2. Carchar, dirwy a gorchymyn cymunedol fel gwaith di-dâl.
3. Mae'n dibynnu ar gyfraith trosedd gwlad. Yng Nghymru a Lloegr, mae'n anghyfreithlon i bobl o dan 16 oed ysmegu a gall yr heddlu gymryd sigarêts oddi ar y rhai sy'n gwneud hynny. Hefyd, mae'n drosedd ysmegu y tu mewn, mewn ardal gyhoeddus fel bwyty. Fodd bynnag, nid yw'n anghyfreithlon yn eich cartref eich hun ac yn yr awyr agored yn gyffredinol. Gellid dadlau bod ysmegu yn wydroëdig oherwydd 15% yn unig o'r boblogaeth sy'n oedolion sy'n ysmegu sigarêts ac felly gellid dadlau eu bod nhw'n mynd yn groes i normau cymdeithasol (Bweltin y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Adult Smoking Habits in the UK: 2017', 3 Gorffennaf 2018).
4. Llofruddiaeth, dwyn o elusen a cherdded o gwmpas y tu allan yn noeth.

### Chwilio'r we, tudalen 51

Mae statws menywod mewn diwyllianau gwahanol yn agwedd bwysig ar y cwestiwn hwn. Mae gan fenywod statws a hawliau cyfartal â dynion yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, fel mae'r erthygl yn nodi, mae statws menywod yn wahanol iawn yn Afganistan. Hefyd, mae crefydd a'r hyn mae Islam a Christnogaeth yn ei ddweud am fenywod, yn chwarae rhan bwysig arall yn y sefyllfa hon.

Fodd bynnag, ymladdodd ymgyrchwyr a gweithredwyr dros hawliau menywod ac yn araf cafodd deddfwriaeth ei phasio i atal camdriniaeth. Cafodd yr heddlu eu hyfforddi i ymyrryd os oedd unrhyw achos o gam-drin. Mae hyn yn cysylltu â chyfraith Claire a'r Cynllun Datgelu Trais Domestig yn Uned 1. Yn fwy diweddar, gwnaeth Deddf Troseddu Difrifol 2015 greu trosedd newydd yn ymwneud ag ymddygiad i reoli neu orfodi mewn perthynas agos neu deuluol.



## Gweithgaredd 2.2, tudalen 52

	Deddfau'r 1950au	Deddfau modern
Gwerthu sigarêts	Ychydig iawn o gyfyngiadau ar werthu sigarêts Roedd plant yn gallu eu prynu ar ran eu rhieni Roedd hysbysebion ac ymgyrchoedd hyrwyddo yn boblogaidd.	Mae gwerthiant sigarêts wedi'i gyfyngu i rai dros 18 oed. Maen nhw'n cael eu gwerthu mewn pecynnau heb frandio na logos.
Y gosb eithaf am drosedd llofruddiaeth	Roedd dienyddiad gwladol am lofruddiaeth yn bosibl. Cafodd yr unigolyn olaf ei grogi yng Nghymru a Lloegr yn 1964.	Cafodd y gosb eithaf ei diddymu dros dro am lofruddiaeth yn 1965 a'i diddymu'n llwyr yn 1969.
Cyfreithiau isafswm cyflog	Roedd isafswm cyflog ar gyfer gweithwyr fferm ond ddim ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr.	Cafodd yr isafswm cyflog ei gyflwyno yn 1999 pan oedd yn £3.60 yr awr i oedolion. Erbyn hyn mae'n £7.83 ar gyfer pobl dros 25 oed.
Cyfunrywioldeb	Gallai dynion sy'n cael perthynas gyfunrywiol gael dedfryd o hyd at 2 flynedd yn y carchar, gyda llafur caled neu hebdo, o dan gyfreithiau anwedduster difrifol.	Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei rywioldeb. Mae partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw yn hawliau o dan y gyfraith.

## Datblygu ymhellach, tudalen 52

Ar un adeg, er bod hynny ganrifoedd yn ôl, roedd menyw yn cael ei hystyried yn eiddo ei gŵr ac felly roedd hi o dan ei reolaeth. Gallai dyn guro, ysgaru neu lofruddio ei wraig.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif doedd gan fenywod ddim llawer o hawliau cyfreithiol, er enghraifft roedd eiddo yn cael ei roi yn enw dyn yn unig ac roedd menywod yn cael eu hatal rhag cael swyddi proffesiynol, er enghraifft ym maes y gyfraith a meddygaeth. Doedden nhw ddim yn gallu arfer yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau gwleidyddol.

Yn yr 1970au, roedd yr heddlu fel arfer yn gwrthod ymyrryd mewn dadleuon rhwng gŵr a gwraig, hyd yn oed os oedden nhw'n cynnwys trais. Roedd yn aml yn cael ei ystyried yn fater 'domestig'.

Fodd bynnag, ymladdodd ymgyrchwyr a gweithredwyr dros hawliau menywod ac yn araf cafodd deddfwriaeth ei phasio i atal camdriniaeth. Cafodd yr heddlu eu hyfforddi i ymyrryd os oedd unrhyw achos o gam-drin. Mae hyn yn cysylltu â chyfraith Claire a'r Cynllun Datgelu Trais Domestig yn Uned 1. Yn fwy diweddar, gwnaeth Deddf Troseddau Difrifol 2015 greu trosedd newydd yn ymwneud ag ymddygiad i reoli neu orfodi mewn perthynas agos neu deuluol.

## Gweithgaredd 2.3, tudalen 53

1. Pob un ar wahân i B.
2. C
3. Pob un ar wahân i A.
4. Pob un
5. CH

## Profi eich hun, tudalen 54

Mae deddfau'n newid dros amser o ganlyniad i newid yn safbwyntiau a barn cymdeithas. Er enghraifft, roedd y gosb eithaf ar gael ar un adeg am dros 200 o droseddau, gan gynnwys gweithredoedd mor fân â saethu wyn neu bigo pocedi. Roedd hyn er mwyn amddiffyn y cyfoethog a sicrhau bod eu heiddo yn ddiogel. Fodd bynnag, wrth i gymdeithas newid newidiodd y maes hwn o'r gyfraith hefyd. Yn y pen draw, roedd y gosb eithaf yn cael ei defnyddio ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig fel llofruddiaeth a brad. Fodd bynnag, yn yr 1950au a'r 1960au newidiodd

barn y gymdeithas; o dan ddylanwad achosion o gamweinyddu cyfiawnder, daeth y gosb eithaf yn amhoblogaidd. Yn y pen draw, cafodd y gosb eithaf ar gyfer llofruddiaeth ei diddymu dros dro gan Ddeddf Llofruddiaeth (Diddymu'r Gosb Eithaf) 1965, a chafodd ei diddymu'n llwyr yn 1969.

Yn ogystal â hyn, bydd cymdeithasau gwahanol ar draws y byd yn dylanwadu ar eu deddfau eu hunain. Felly, mae'r arfer o anffurfio organau cenhedlu benywod yn anghyfreithlon yn y DU gan fod pobl yn deall peryglon llawdriniaeth o'r fath. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd o Affrica, y Dwyrain Canol ac Asia mae credoau crefyddol cymdeithas yn golygu bod yr arfer yn parhau. At hyn, mae bod ym meddiant y sylwedd anghyfreithlon cannabis yn cael ei drin yn wahanol mewn gwahanol leoedd. Er enghraifft, yn Columbia dydy hi ddim yn drosedd bod ym meddiant y cyffur hwn erbyn hyn ac nid yw pobl yn cael eu herlyn. Ond mewn sawl ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr, fel Cumbria, gallai troseddwr fod yn torri'r gyfraith.

Yn olaf, mae gan ddiwylliannau gwahanol normau a gwerthoedd gwahanol ac felly bydd eu deddfau yn wahanol hefyd. Er enghraifft, nid yw godineb yn drosedd yn y DU. Fodd bynnag, o ystyried safbwyntiau crefyddol y diwylliant Islamaidd, mae godineb yn Saudi Arabia a Pakistan yn anghyfreithlon. Yn yr un modd, mae traddodiadau rhai diwylliannau a statws menywod yn dylanwadu ar droseddau er anrhydedd. Mewn diwylliannau sy'n tarddu o Asia a'r Dwyrain Canol, gall troseddau er anrhydedd ddigwydd os bydd rhywun yn dwyn gwarth ar anrhydedd y teulu. Yn y DU mae'r arfer hwn yn anghyfreithlon a byddai'n arwain at erlyniad troseddol.

## Gweithgaredd 2.4, tudalen 54

Y geiriau coll yw: cyfrifoldeb troseddol, arestio, erlyn, dynladdiad, ddim yn llawn gyfrifol, colli.

## Profi eich hun, tudalen 56

1. Cromosomau sy'n pennu ein rhywedd. Fel arfer bydd gan wrywod gromosomau XY a bydd gan fenywod gromosomau XX. Fodd bynnag, mae gan wryw XYY gromosom ychwanegol.
2. Mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu bod troseddoldeb yn cael ei gysylltu â'r cromosom ychwanegol. Mae'n cynhyrchu 'uwch wryw' sy'n cynhyrchu mwy o destosteron ac ymosododd, a gall hyn arwain at gyflawni trosedd.
3. Patricia Jacobs.
4. Mae ei hymchwil yn awgrymu bod dynion sydd â syndrom XYY yn fwy ymosodol na'r gwryw XY arferol. Gwelodd fod dynion XYY wedi'u gorgynrychioli ymhlith poblogaeth y carchardai gyda 15 i bob 1,000 o'u cymharu ag 1 i bob 1,000 yn y boblogaeth yn gyffredinol.
5. Roedd pobl yn credu bod gan Richard Speck, lladdwr a llofruddiodd wyth myfyriwr nyrsio yn America, syndrom XYY ond canfuwyd yn ddiweddarach ei fod yn XY. Hefyd, roedd y llofrudd cyfresol John Wayne Gacy yn XYY.

## Chwilio'r we, tudalen 56

Yn UDA yn 1966, treisiodd a llofruddiodd Richard Speck wyth nyrs. Roedd yn ddyn tal ac roedd ganddo acne ar ei wyneb: mae'r rhain yn symptomau dynion sydd â syndrom XYY. Y gred oedd bod ganddo annormaledd cromosomaidd a bod ei ymddygiad troseddol yn gysylltiedig â'r ffaith ei fod yn ddyn XYY. Fodd bynnag, dangosodd profion genetig ei fod yn XY.

Gwnaeth Patricia Jacobs a'i chydweithwyr ymchwilio i syndrom XYY mewn ysbyty diogel arbennig yn yr Alban ar gyfer cleifion â thuueddiadau peryglus, treisgar neu droseddol.

Gwnaethon nhw gynnal arolwg o 315 o gleifion gwryw. Datgelodd yr ymchwil fod gan 16 (5.1%) gromosomau annormal ac roedd naw yn XYY.

## Gweithgaredd 2.5, tudalen 57

*Gallai senario fod fel hyn:*

Mae Preha a Sidra yn efeilliaid a gafodd eu gwahanu adeg genedigaeth. Roedd Preha yn byw gyda'i rhieni naturiol ac anfonwyd y ddau i'r carchar pan oedd hi'n 18 oed. Mae Preha, sy'n delio mewn cyffuriau, yn gobeithio na fydd hi'n dilyn ei rhieni. Cafodd Sidra ei mabwysiadu gan deulu parchus iawn ond maen nhw wedi ypsetio'n lân gan ei bod hi wedi troi yn lleidr er mwyn cael arian i dalu am ei chaethiwed i gyffuriau. Hi yw'r person cyntaf yn y teulu mabwysiedig i gael euogfarn droseddol.

## Datblygu ymhellach, tudalen 57

Cyflawnodd Stephen Mobley y troseddau oherwydd canlyniad trasig rhagdueddiad genetig. Doedd ewyllys rydd ddim yn gysylltiedig felly dylai fod yn ddiuog. Yn anesboniadwy, dros y pedair cenhedlaeth ddiwethaf, mae gwahanol aelodau o'r teulu Mobley wedi troseddu ac wedi ymddwyn yn dreisgar ac ymosodol iawn. Felly, geneteg oedd yn gyfrifol ac nid Mobley.

## Gweithgaredd 2.6, tudalen 58

### **Lombroso (1876)**

Seicolegydd a meddyg milwrol o'r Eidal a ddatblygodd ddamcaniaethau am droseddwr. Roedd yn arloesi yn y defnydd o ddulliau gwyddonol ym maes troseddeg.

Dadluedd Lombroso fod y troseddwr yn rhywogaeth ar wahân, rhywogaeth sydd rhwng bodau dynol modern a rhai cyntefig.

Mae'r ddamcaniaeth yn cysylltu nodweddion corfforol ag ymddygiad troseddol. Dadluedd fod siâp pen ac wyneb rhywun yn pennu ei fod 'wedi ei eni yn droseddwr'. Roedd yn honni bod troseddoldeb yn etifeddadwy.

Roedd gan droseddwr nodweddion 'atafistaidd' a oedd yn 'adleisiau' neu nodweddion biolegol o gyfnod cynharach yn natblygiad y ddynoliaeth, a oedd yn cael eu hamlygu fel tueddiad i droseddu.

Roedd y nodweddion hyn yn cynnwys talcenni isel ar ogwydd, genau mawr neu ên ymwithiol, gên enciliol, breichiau hir o gymharu â'r aelodau is, esgyrn bochau rhy fawr, genau a gwefusau mawr, clustiau mawr fel rhai mwnci, gormod o grychau ar y croen a defnydd helaeth o datŵs.

### **Sheldon (1949)**

Cyflwynodd ddamcaniaeth sy'n rhannu syniad egwyddor Lombroso bod ymddygiad troseddol yn gysylltiedig â nodweddion corfforol rhywun. Cyflwynodd y syniad o somatoteipiau neu siapiau corff gwahanol.

O ganlyniad i archwiliad trylwyr iawn o ffotograffau a dynnwyd o'r ochr, o'r blaen ac o'r cefn yn dangos 4,000 o ddynion heb lawer o ddillad, dadluedd Sheldon fod tri phrif math o gorff neu somatoteip.

Math endomorffig (yn dew ac yn feddal) sy'n tueddu i fod yn gymdeithasol ac wedi ymlacio.

Math ectomorffig (yn denau ac yn fregus) sy'n fewnblyg ac yn swil. Math mesomorffig (yn gyhyrog ac yn galed) sy'n tueddu i fod yn fwy ymosodol ac anturus.

Sylwodd Sheldon fod llawer o droseddwr a oedd yn tueddu i gyflawni gweithredoedd treisgar ac ymosodol yn fesomorffig, ac mai nhw oedd y lleiaf tebygol o fod yn ectomorffig.

Defnyddiodd sampl o ffotograffau o fyfyrwyr coleg a thramgwyddwyr wedi'u graddio ar raddfa o 1 (isel) i 7 (uchel) yn ôl eu tebygrwydd i'r somatoteip mesomorffig. Dangosodd y canlyniadau fod gan y tramgwyddwyr gyfradd fesomorffig uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu â'r myfyrwyr coleg (4.6–3.8).

**Gweithgaredd 2.7, tudalen 59**

Mae'r ateb yn werth 3/5. Mae rhai pwyntiau cadarnhaol fel y defnydd o derminoleg, gan gynnwys 'etifeddadwy', 'atafistaidd' a 'dynion troseddol'. Mae'r syniad nad yw troseddwr wedi esblygu'n llawn a'r enghreifftiau o'r nodweddion atafistaidd yn sicrhau bod yr ateb ar frig band marciau 1–3. I gyrraedd y band marciau nesaf mae angen mwy o fanylder. Er enghraifft, ymadroddion a geiriau fel 'adlais o rywun wedi ei eni yn droseddwr' a 'chyntefig'. Hefyd, gellid ychwanegu nodweddion yn ymwneud â throseddau penodol, e.e. mae gan droseddwr rhyw wefusau tew a chlustiau ymwithiol. Cafodd y ddamcaniaeth hon ei chynnig gan Cesare Lombroso, sy'n aml yn cael ei alw'n 'Dad Troseddeg Fodern', a oedd hefyd yn credu nad oedd troseddwr yn sensitif i boen, bod ganddynt lawer o datŵs a gormodedd o grychau ar y croen, a'u bod yn siarad gan ddefnyddio slang troseddol.

**Gweithgaredd 2.8, tudalen 59**

Mae tri somatoteip: endomorffig (yn dew ac yn feddal) sy'n tueddu i fod yn gymdeithasol ac wedi ymlacio; ectomorffig (yn denau ac yn fregus) sy'n fewnblyg ac yn swil; mesomorff (cyhyrog a chaled), sy'n tueddu i fod yn ymosodol ac yn anturus. Sylwodd Sheldon fod llawer o droseddwr a oedd yn tueddu i gyflawni gweithredoedd treisgar ac ymosodol yn fesomorffig, ac mai nhw oedd y lleiaf tebygol o fod yn ectomorffig.

**Profi eich hun, tudalen 60**

1. Cyntefig.
2. Talcenni isel ar ogwydd, genau mawr neu ên ymwithiol, gèn enciliol, breichiau hir o gymharu â'r aelodau is, esgyrn bochau rhy fawr, gèn a gwefusau mawr, clustiau mawr fel mwnci, gormod o grychau ar y croen.
3. Cesare Lombroso.
4. Troseddau rhyw.
5. Roedd y ddau yn credu bod troseddoldeb yn cael ei etifeddu a'i fod y cael ei bennu gan eich siâp corfforol.
6. Tew a chrwn.
7. Mewnblyg a swil.
8. Ectomorff.
9. Llygaid coch gan waed a gwallt cyrliog.
10. Mesomorff.

**Gweithgaredd 2.9, tudalen 60**

Gan mai map meddwl sydd yma, mae'n anodd rhoi ateb.

**Datblygu ymhellach, tudalen 62**

Mae astudiaeth wedi dangos gall gwyllo ffilmiau treisgar wneud pobl yn fwy ymosodol. Fodd bynnag, mae ymateb unigolyn yn dibynnu ar ba mor ymosodol oedd yr unigolyn yn y lle cyntaf. Gofynnwyd cwestiynau i 54 o ddynion ac yna cawson nhw eu rhannu yn ddau grŵp: y rhai oedd yn ymosodol, gan gynnwys hanes o ymosod yn gorfforol, a'r rhai oedd yn fwy tawel. Sganiwyd eu hymennydd wrth iddyn nhw wyllo ffilmiau treisgar a di-drais.

Wrth iddyn nhw wyllo'r trais roedd llai o weithgarwch yn y cortecs craudalcennol, sy'n rheoli'r gallu i ddod i benderfyniadau ar sail emosiwn a hunanreolaeth. Hefyd, aeth eu pwysedd gwaed i

lawr yn raddol, ond cododd pwysedd gwaed y grŵp mwy tawel. Roedd y grŵp treisgar yn ypsetio llai neu'n teimlo'n llai nerfus na'r dynion eraill wrth wyltio trais yn hytrach na phan roedden nhw'n gwyltio golygfeydd emosiynol yn unig. Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod 'Ymosoddedd yn nodwedd sy'n datblygu dros amser ynghyd â'r system nerfol, gan ddechrau o gyfnod plentyndod. Bydd patrymau ymddygiad yn ymffurfio a chaledu a bydd y system nerfol yn paratoi i barhau â'r patrymau ymddygiad fel oedolyn pan fyddan nhw'n cael eu mynegi fwyfwy yn eu personoliaeth.'

### Gweithgaredd 2.10, tudalen 62

Gallwch wirio eich ateb yn erbyn yr enghraifft ar dudalen 99 yn y gwerslyfr.

### Gweithgaredd 2.11, tudalen 62

#### Ar draws

3. Uwch-ego
4. Bowlby
5. Id
6. Plentyndod
7. Seicodynamig
8. Oedipus
11. Cyfryngwr

#### I lawr

1. Euogrywydd
2. Troseddwr
4. Boddhad
7. Sigmund
9. Ego
10. Anymwybodol

### Gweithgaredd 2.12, tudalen 63

Y math o bersonoliaeth sy'n fwyaf tebygol o fod yn droseddol yw 'Mewnblyg niwrotig', rhwng allblygedd a niwrotiaeth. Yn ddiweddarach, ychwanegodd Eysenck seicotiaeth i'r un maes.

### Datblygu ymhellach, tudalen 63 (brig)

1. Gwnaeth Nick Leeson fuddsoddiadau ar hap heb awdurdod gan wneud elw mawr iawn i'r banc ac ennill taliadau bonws mawr iawn iddo ef ei hun. Fodd bynnag, ar ôl i'r buddsoddiadau fethu roedd y colledion mor fawr collodd y banc gymaint o arian fel nad oedd yn gallu parhau i weithredu.
2. Gallai fod â phersonoliaeth allblyg yn gyffredinol.
3. Mae pobl sydd â phersonoliaeth allblyg yn fwy tebygol o droseddu, yn bennaf oherwydd ei bod yn anodd iddyn nhw ddysgu sut i reoli eu mympwyon. Mae troseddwr yn fwy tebygol o fod yn bobl allblyg gyda'r nodweddion canlynol: byrbwyll, yn chwilio am wefr ac yn fodlon cymryd siawns. Roedd hyn yn amlwg yn ymddygiad Leeson pan oedd yn gweithio yn y banc ac yn gwneud yr hapfuddsoddiadau.

### Datblygu ymhellach, tudalen 63 (gwaelod)

Mae Andrea yn eithaf cyfoethog ond mae hi'n dechrau dwyn dillad o'i siop ffaswn leol. Mae hi'n gweld hyn fel her er mwyn ceisio twyllo'r staff diogelwch. Mae hi'n dechrau teimlo'n isel pan nad yw hi'n dwyn y dillad ac mae hi'n cael gwefr pan mae hi'n osgoi cael ei dal wrth droseddu. Dadansoddwch ddamcaniaeth personoliaeth Eysenck yng nghyswllt troseddoldeb Andrea.

### Gweithgaredd 2.13, tudalen 64

Byddai'r tri ateb yn sgorio 4/5 oherwydd bod pob un yn cynnig damcaniaeth unigolyddol gywir gyda digon o fanylder. Hefyd, mae pob un yn defnyddio terminoleg arbenigol. Byddai ychydig mwy o fanylion a phwyslais ar sut mae troseddoldeb yn gysylltiedig â'r ddamcaniaeth wedi sicrhau marciau llawn.

**Profi eich hun, tudalen 65**

1. Gall troseddoldeb, fel unrhyw ymddygiad arall, gael ei ddysgu neu ei gopïo. Felly, os bydd plant yn gweld eu modelau rôl, rhieni yn aml, yn troseddu yna efallai byddan nhw'n eu copïo nhw a dod yn droseddwyr.
2. Rhieni neu ofalwyr, grwpiau cyfoedion a symbolau diwylliannol fel y teledu.
3. Albert Bandura ac Edwin Sutherland i enwi dau.
4. Rydyn ni'n dysgu pethau gwahanol gan bobl wahanol. Felly gallwn ni hefyd ddysgu sut i fod yn droseddwyr gan rai pobl.
5. Mae'r Id yn hunanol ac mae ganddo ysfeydd anifeilaidd. Mae'r Ego yn chwilio am reolaeth resymegol a synhwyrol. Yr Uwch-ego yw ein cydwybod moesol ac mae bob amser am wneud yr hyn sy'n iawn.
6. Mae'n cysylltu â phrofiadau plentyndod cynnar a sut rydyn ni'n cael ein trin fel plant. Yn benodol, gall amddifadedd mamol gael effaith negyddol ar bobl wrth iddyn nhw dyfu a datblygu.
7. Mae angen lefelau uchel o gynnwrf ac ysgogiad ar bobl allblyg. Mae'r gwrthwyneb yn wir am bobl fewnblyg a does dim angen llawer o ysgogiad allanol arnyn nhw. Mae personoliaeth niwrotig yn ymateb yn gryf i symbyliadau ac mae ganddi newidiadau emosiynol cryf. Unwaith eto, mae'r gwrthwyneb yn wir am bersonoliaeth sefydlog heb fawr ddim newid emosiynol. Roedd pobl yn credu bod y bersonoliaeth seicotig a gafodd ei hychwanegu yn ddiweddarach yn oer, ddihidio ac ymosodol.
8. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r derminoleg arbenigol yn eich holl atebion.

**Chwilio'r we, tudalen 68**

Cydymffurfiwr – Yn adolygu i basio arholiadau

Addaswr – Yn rhoi darnau o ddau gar at ei gilydd a'i werthu fel car cyfreithlon

Enciliwr – Rhywun cyfreithlon ond nid oes ots ganddo am ymddangosiad neu beth yw barn cymdeithas amdano

Defodwr – Diffyg hunanbarch: camddefnyddio cyffuriau/digartrefedd

Rebel – Aelod o'r gang beiciau modur Outlaw, gyda'i reolau ei hun

**Gweithgaredd 2.14, tudalen 70**

1. Émile Durkheim.
2. Dydy pob aelod o gymdeithas ddim yn gallu ymrwymo i'r un graddau â theimladau neu werthoedd a chredoau cyffredin.
3. Pan mae'r gyfradd droseddu yn anarferol o uchel neu isel.
4. Bydd dim llawer o newid, e.e. derbyn cyfunrywioldeb.
5. Bydd gormod o drosedd a bydd y status quo yn chwalu.
6. Colli egwyddorion neu normau sy'n cael eu rhannu (straen).
7. Mae cymdeithas yn dod at ei gilydd i gydweithio mewn ffordd gefnogol.
8. Mae cymdeithas yn gosod ffiniau o ran yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sydd ddim yn dderbyniol.
9. Pan ddaeth y gymuned ynghyd yn dilyn herwydio Shannon Matthews.
10. Albert Cohen.

**Gweithgaredd 2.15, tudalen 71**

Realaeth y dde: A, B, CH, DD, F, FF

Realaeth y chwith: C, D, DD, E, G, NG

## Datblygu ymhellach, tudalen 71

Ataliaeth i droseddu yn y dyfodol, ad-dalu cymdeithas, awdurdod cymdeithasol cryf yn seiliedig ar foesoldeb traddodiadol, troseddu dosbarth-gweithiol, cymdeithas gyfalafol, effeithiolrwydd plismona, atgwympo, amddifadedd cymharol, rhagataliaeth, atal troseddu, datblygu polisi, ymyriad amlasiantaeth.

## Gweithgaredd 2.16, tudalen 76

Byddai'n bosibl defnyddio rhyngweithiadaeth i ddadansoddi troseddoldeb Edna. Mae hyn yn cyfeirio at sut mae pobl mewn cymdeithas yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae damcaniaethwyr fel Howard Becker yn defnyddio'r ddamcaniaeth labelu i esbonio pam mae pobl yn troseddu. Mae llawer o'r cymdogion yn gweiddi geiriau cas at Edna ac yn ei galw hi'n 'fenyw wallgof'. Hefyd, mae Sidney yn ei galw hi'n 'hen fenyw hanner call'. Gall y galw enwau hyn gael ei ystyried yn labelu. Mae label yn cynnwys rhai rhagfarnau a delweddau a allai olygu fod pobl eraill yn dehongli ymddygiad yr unigolyn a gafodd ei labelu mewn ffordd benodol. Mae Edna yn penderfynu ymateb mewn ffordd sy'n ffitio i'r label o fod yn wallgof ac mae hi'n cyflawni gweithred a allai gael ei disgrifio fel un wallgof. Mae hi'n cymryd cylllell o'r gegin ac yn trywanu Sidney yn ei galon. Gellid dweud ei bod hi'n cymryd y label fel ei statws meistr ac yn caniatáu i'r label arwain ei gweithredoedd. Mae yma broffwydoliaeth hunangyflawnol lle mae Edna yn gwredu'r label o fod yn wallgof. Roedd Edna wedi mewnoli'r galw enwau ac wedi gweithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu hyn.

## Datblygu ymhellach, tudalen 76

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu. Ysgrifennwch eich senario eich hun.

## Gweithgaredd 2.17, tudalen 78

Marcsaeth: Mae'r ddamcaniaeth hon yn anwybyddu cymhelliant unigolyn, neu'r cysylltiad rhwng trosedd ac anghydraddoldebau eraill fel rhywedd. Cyfyngiad arall yw'r ffaith ei fod yn anwybyddu materion eraill, yn enwedig ewyllys rydd troseddwy. Un pryder mawr ynglŷn â'r ddamcaniaeth hon yw nad yw pawb ar incwm isel yn troseddu. Fodd bynnag, mae cyfalafiaeth yn annog cystadleurwydd a thrachwant. Un cryfder allweddol yw bod troseddu yn gallu deillio o'r anghydraddoldebau yn y strwythur cymdeithasol. Gellid dadlau bod cyfreithiau yn cael eu llunio er mwyn amddiffyn y dosbarthiadau sy'n rheoli.

Damcaniaeth straen: Mae'r ddamcaniaeth hon yn cysylltu â throseddoldeb oherwydd mae'n esbonio sut mae troseddu yn digwydd o ganlyniad i straen cymdeithasol a chanlyniadau'r ffordd mae unigolion yn addasu i'r straen. Hefyd, mae'n esbonio pam gall cyfraddau troseddu'r dosbarth gweithiol fod yn uwch. Un cryfder arall yw ei fod yn caniatáu unigoliaeth, oherwydd bod pobl yn ymateb yn wahanol i straen cymdeithasol. Fodd bynnag, ar y llaw arall, gall ymagwedd o'r fath osgoi troseddau grŵp. Un o gyfyngiadau'r ddamcaniaeth yw nad yw'n gallu esbonio nad oes yn rhaid i drosedd gael budd ariannol. Mae'n benderfyniaethol oherwydd dydy pob unigolyn o'r dosbarth gweithiol ddim yn troi at droseddu.

Rhyngweithiadaeth: Un o gyfyngiadau allweddol y ddamcaniaeth yw nad yw'n esbonio pam mae ymddygiad gwyrddedig yn digwydd yn y lle cyntaf. Hefyd, gall fod yn benderfyniaethol a stereoteipaidd. Problem arall yw y gall ganolbwyntio ar effeithiau negyddol labelu ac, i'r gwrthwyneb, gall anwybyddu dioddefwyr trosedd gan ganolbwyntio ar y troseddwr. Ar y llaw arall, mae'n tynnu sylw at y gwahaniaethu o ran gwyrdd rhwng pobl ac mae'n dangos gall rheolau gael eu cymhwyso mewn ffordd wahaniaethol. Mae'n dangos gwendidau ystadegau swyddogol gan awgrymu eu bod yn fwy o gofnod o weithgareddau'r asiantaethau rheoli yn hytrach na'r troseddwy.

## Gweithgaredd 2.18, tudalen 78

Gallwch wirio eich ateb gan ddefnyddio tudalennau 116–118 yn y gwrslyfr.



**Atebion enghreifftiol, tudalen 80**

Ateb A: byddai'n sgorio 4/8. Mae'n ystyried dwy ddamcaniaeth ac yn rhoi rhywfaint o fanylion wrth geisio gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae'r ddamcaniaeth seicodynamig braidd yn wan.

Ateb B: byddai'n sgorio 7/8. Mae tair damcaniaeth yn cael eu hystyried, gan gynnig dewis. Mae cryfderau a gwendidau yn cael eu hystyried ar gyfer pob un. Hefyd, mae defnydd da yma o derminoleg arbenigol. Fodd bynnag, mae'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn debyg iawn ac mae diffyg syniadau gwahanol.

**Datblygu ymhellach, tudalen 80**

Mae awgrymiadau ar gyfer gwella'r ateb wedi'u cynnwys yng nghyfarwyddiadau'r adran Datblygu ymhellach.

**Datblygu ymhellach, tudalen 81**

Nid yw arbrawf yn brofiad bywyd go iawn ac felly gall arwain at ganlyniadau gwahanol neu ymatebion annaturiol.

**Gweithgaredd 2.19, tudalen 82**

Polisiâu ffurfiol	Polisiâu anffurfiol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• dedfryd o garchar</li> <li>• gorchmynion cymunedol, gan gynnwys mechnïaeth</li> <li>• cyrffyw</li> <li>• dirwyon</li> <li>• therapi ymddygiad gwybyddol (gellid dadlau ei fod yn perthyn i'r ddau gategori)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cadw plant i mewn yn yr ysgol</li> <li>• atal arian poced</li> <li>• rhieni yn atal plant rhag mynd allan</li> <li>• therapi ymddygiad gwybyddol (gellid dadlau ei fod yn perthyn i'r ddau gategori)</li> </ul>

**Gweithgaredd 2.20, tudalen 83**

Gallai seicdreiddio helpu Glenn i fynegi ei feddyliau ar lafar, drwy wahanol ddulliau, gyda'r nod o gyrraedd y meddyliau anymwybodol, sy'n cael eu hatal, y credir eu bod nhw wedi arwain at y gweithgarwch troseddol. Gall meddyliau o'r fath fod yn gysylltiedig â'i blentyndod a'i rieni yn gwahanu. Gellid dadlau mai'r dechneg hon sy'n cael ei ffafrio leiaf o'r holl ddulliau cyfoes o weithio gyda throseddwr. Mae Blackburn (1993) yn feirniadol ohono gan nodi mai prin iawn yw'r gwerthusiadau cadarnhaol o seicdreiddio clasurol fel ffordd o drin troseddwr. Mae Andrews et al. (1990) yn dadlau: 'Dylid osgoi therapiâu seicodynamig traddodiadol gyda samplau cyffredinol o droseddwr.'

Ar y llaw arall, gellid ystyried techneg addasu ymddygiad i ddileu ymddygiadau annymunol a hyrwyddo rhai dymunol. Yr egwyddor sylfaenol yw bod ymddygiadau a atgyfnerthir yn cael eu cryfhau, ond bod ymddygiadau a gosbir yn cael eu gwanhau. Dyfeisiodd Fo ac O'Donnell (1975) 'system bydis' lle byddai oedolion a oedd wedi gwirfoddoli yn cael eu rhoi i weithio gyda throseddwr ifanc er mwyn atgyfnerthu'n barhaus ymddygiad a oedd yn dderbyniol yn gymdeithasol. Roedd yn ymddangos bod y system wedi gwella ymddygiad troseddwr difrifol, ond roedd yr effaith ar y rhai oedd wedi cyflawni troseddau llai difrifol yn gymysg. Fodd bynnag, efallai fod hyn yn rhywbeth allai wella ymddygiad Glenn. Yn olaf, efallai bydd Glenn yn elwa ar gws rheoli dicter i ddelio â'i broblemau dicter sydd wedi arwain at ei euogfarnau am achosi gwir niwed corfforol. Os bydd adnoddau effeithiol yn cael eu darparu, gallai'r driniaeth hon fod yn llwyddiannus.

**Gweithgaredd 2.21, tudalen 83**

Salad wy a chaws; eog mwg neu dwrci; cnau a hadau fel byrbryd.



## Chwilio'r we, tudalen 84

1. Mae cyfansoddiad genetig cŵn modern wedi newid i'r graddau nad ydyn nhw yr un peth â chŵn y gorffennol. Mae hyn yn awgrymu bod dyn wedi cael dylanwad arwyddocaol ar ddatblygu cŵn yn ffurf sy'n addas ar eu cyfer.
2. Gwartheg, planhigion.
3. I gynyddu'r cynnyrch a gallu'r cynnyrch i wrthsefyll clefydau a'i wneud yn fwy deniadol yn weledol.
4. Syr Francis Galton.
5. Roedd yn cael ei ystyried yn ateb i greu poblogaeth ansawdd uwch, ac yn ffordd o ddileu troseddwr o'r boblogaeth.
6. Mae bridio bodau dynol mewn ffordd ddetholus yn ymddangos yn arswydus, mae'n cynnwys agweddau fel hiliaeth, llofruddiaeth a chreulondeb.

## Datblygu ymhellach, tudalen 84

1. Roedd 94% yn cytuno nad oedd llawer o dystiolaeth empirig i gefnogi effaith ataliol y gosb eithaf.  
Dyweddod 90% nad oedd y gosb eithaf yn cael llawer o effaith yn gyffredinol ar gyflawni llofruddiaeth. At hyn, dywedodd 91.6% na fyddai cynyddu amlder dienyddiadau yn ychwanegu at yr effaith ataliol.  
Dyweddod 87.6% na fyddai cyflymu dienyddiadau yn gweithio ychwaith.
2. Nid yw'n atal achosion o lofruddiaeth ac felly mae'n aneffeithiol.  
A yw hi'n iawn i gymryd bywyd am fywyd?  
Gall y gosb eithaf fod yn gostus.  
Mae'n ffordd i'r llywodraeth arfer rheolaeth.  
Mewn rhai gwledydd gallai dienyddiadau gael eu cynnal yn gyfrinachol.  
Mae'n rhoi grym i unbenaethau.

## Gweithgaredd 2.22, tudalen 85

1. D
2. A
3. DD
4. C
5. CH
6. B

## Datblygu ymhellach, tudalen 87

Yn ôl y wefan sy'n cael ei hargymell: 'Ychydig iawn o bobl yn Lloegr sy'n debygol o gael presgripsiwn am ganabis meddygol. Ar hyn o bryd, mae'n debygol o gael ei ragnodi ar gyfer y cyflyrau canlynol yn unig:

- plant ac oedolion sydd â mathau prin, difrifol o epilepsi
- oedolion sy'n chwydu neu'n cyfogi oherwydd cemotherapi.

A byddai'n cael ei ystyried dim ond pan na fyddai triniaethau eraill yn addas neu os nad oedden nhw wedi helpu.'

**Datblygu ymhellach, tudalen 89**

Mae nifer y troseddau yn ymwneud â chyllyll neu offerynnau miniog yn dal i godi. Mae cynnydd o 2% yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn ymwneud ag arfau tanio.

Roedd nifer y lladdiadau gafodd eu cofnodi gan yr heddlu wedi codi am y bedwaredd flwyddyn, sef cynnydd o 12% o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r troseddau hyn yn tueddu i gael eu cyflawni yn Llundain ac ardaloedd metropolitaidd eraill.

**Chwilio'r we, tudalen 91**

1. Term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r weithred o dynnu llun o dan sgert rhywun heb ganiatâd.
2. Dwy flynedd.
3. Yn yr Alban mae eisoes yn drosedd o dan y Ddeddf Troseddau Rhyw.
4. Deiseb a dderbyniodd dros 100,000 o lofnodion gan ddod i sylw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chefnogaeth gan sawl plaid wleidyddol.
5. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei Mesur ei hun i newid y gyfraith.

**Profi eich hun, tudalen 91**

1. O weithgarwch soffistigedig oedd yn cael ei annog gan y cyfryngau a hyd yn oed y proffesiwn meddygol i ymddygiad amhoblogaidd a gwyrddroedig bron iawn. Gwahardd ysmegu mewn manau agored amgaeedig oherwydd y canlyniadau meddygol.
2. Deddf Iechyd 2006 – gwahardd ysmegu sigarêts mewn manau cyhoeddus amgaeedig; a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 – yn galluogi'r llywodraeth i weithredu rheoliadau yn gwahardd ysmegu mewn cerbydau pan fydd plant yn bresennol.
3. Roedd yn weithred anghyfreithlon yn wreiddiol yn ymwneud â throsedd chasineb. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:
  - Deddf Troseddau Rhyw 1967 – dydy perthynas rywiol rhwng dau ddyn cydsyniol dros 21 oed ddim yn drosedd erbyn hyn. (Cafodd oed cydsynio ei ostwng i 18 oed ac i 16 oed yn y pen draw.)
  - Yn 2003 – cafodd y gwaharddiad ar 'hyrwyddo' cyfunrywioldeb mewn ysgolion ei ddirymu (ei ddileu o'r gyfraith).
  - Yn 2004 – Deddf Partneriaethau Sifil: roedd partneriaethau sifil yn caniatáu i gyplau o'r un rhyw gael eu huno mewn partneriaeth sifil.
  - Yn 2008 – daeth yn anghyfreithlon annog casineb homoffobaidd: daeth yn drosedd gasineb.
  - Yn 2013 – Deddf Priodasau (Cyplau o'r un Rhyw) 2013: daeth priodasau rhwng pobl o'r un rhyw yn gyfreithlon.
4. Cafodd ei diddymu dros dro yn 1965, a'i diddymu'n barhaol yn 1969. Gwnaeth sawl achos o gamweinyddu cyfiawnder posibl gyfrannu at newid barn pobl am y gosb eithaf. Roedd achosion yn cynnwys rhai Timothy Evans, Ruth Ellis a Derek Bentley.
5. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975.
6. Cyfraith Clare (Clare Woods).

**Gweithgaredd 2.23, tudalen 92**

A – 8 B – 5 C – 2 CH – 6 D – 1 DD – 7 E – 4 F – 3

## Chwilio'r we, tudalen 94

Lansiodd yr elusen 'Protection Against Stalking (PAS)' a Napo, undeb y gwasanaeth prawf a llysoedd teulu, ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am ganlyniadau stelcian ar fenywod. Doedd y gyfraith flaenorol ddim yn addas i'r pwrpas mwyach ac roedd angen newid. Cafodd Ymchwiliad Seneddol ei sefydlu i adolygu'r gyfraith. Pan oedd y Mesur Amddiffyn Rhyddidau yn mynd drwy'r Senedd cafodd diwygiad ei ychwanegu a oedd yn creu trosedd stelcian gan olygu ei bod yn drosedd yn ogystal â throsedd sifil.

## Ateb enghreifftiol, tudalen 95

Byddai'r ateb hwn yn cael 6/8. Mae tair ymgyrch yn cael eu hystyried, er bod yr olaf yn fyr iawn. I ennill y marciau llawn dylid nodi enwau'r deddfau/polisiâu gafodd eu cyflwyno o ganlyniad i'r ymgyrchoedd. Hefyd, byddai'r drafodaeth ar yr ymgyrch olaf yn well petai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno.

## Profi eich hun, tudalen 96

1. Ymgyrch Bobby Turnbull i newid y deddfau gynnu.
2. Cyfraith Sarah a gafodd ei chefnogi gan y *News of the World*.
3. Gwnaeth y British Lung Foundation helpu i gyflwyno newidiadau i'r gyfraith ar ysmegu sigarêts.
4. *News of the World*.
5. Cynllun Datgelu Troseddwy Rhyw yn erbyn Plant.
6. Y gyfraith ar erlyniad dwbl ar gyfer llofruddiaeth.
7. Oherwydd cafodd Billy Dunlop, y dyn roedd hi'n credu oedd wedi lladd ei merch, Julie Hogg, ei gael yn ddieuog o'i llofruddio ond yna cyfaddefodd mai ef oedd yn gyfrifol. Roedd y gyfraith ar y pryd yn golygu nad oedd yn gallu cael ei gyhuddo o'r drosedd am yr ail waith.
8. Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
9. Roedd mam ei gyn-bartner, Michael Atherton, wedi dioddef camdrin domestig ond cafodd ganiatâd i gadw ei drwydded dryllau. Saethodd mam, chwaer a modryb Turnbull gyda'i wn trwyddedig.
10. Profi am gyffuriau wrth ochr y ffordd.
11. Yr ymgyrch am hawliau cyfartal ar gyfer LGBT ac ymgyrchoedd gwrthysmygu fel ASH a'r British Lung Foundation.

## Uned 3 O Leoliad y Drosedd i'r Llys

### Gweithgaredd 3.1, tudalen 97

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Chwilio'r we, tudalen 98

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Gweithgaredd 3.2, tudalen 99

Nid oes atebion yn cael eu darparu. (Cyfeiriwch at sylwadau'r aseswr ym mlwch y gweithgaredd.)

### Gweithgaredd 3.3, tudalen 100

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu. (Mae pwyntiau i'w cael yn yr adran Cysylltu â'r briff ar dudalen 100.)

### Gweithgaredd 3.4, tudalen 101

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Chwilio'r we, tudalen 102

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

### Gweithgaredd 3.5, tudalen 105


Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

### Chwilio'r we, tudalen 107

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Gweithgaredd 3.6, tudalen 109

### Treial yn cael ei glywed yn y Llys Ynadon



Llys Ynadon – Treial Ynadol

Os cafodd y treial ei glywed yn y Llys Ynadon, gall y diffynnydd apelio yn erbyn y ddedfryd a'r euogfarn i Llys y Goron os oedd y diffynnydd wedi pledio'n ddieuog.

Fodd bynnag, os gwnaeth y diffynnydd bledio'n euog, gall y diffynnydd apelio yn erbyn y ddedfryd yn unig.

Yna gall y diffynnydd apelio o Llys y Goron i'r Llys Apêl (Adran Mainc y Frenhines) ar bwynt cyfreithiol.

Bydd yn rhaid i'r diffynnydd gael caniatâd i apelio yn yr achos hwn, ac mae hyn yn cael ei alw'n 'ganiatâd i apelio'.

Yna gall y diffynnydd apelio o'r Llys Apêl i'r Goruchaf Lys ar bwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cenedlaethol.

### Treial yn cael ei glywed yn Llys y Goron



Llys y Goron – Treial y Ditiad

Os cafodd y treial ei glywed yn Llys y Goron, gall y diffynnydd apelio i'r Llys Apêl.

Os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog, yna gall apêl ystyried pwynt cyfreithiol neu'r ddedfryd.

Fodd bynnag, os yw'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog, yna gall apêl ystyried pwynt cyfreithiol, pwynt o ffaith (euogfarn) neu'r ddedfryd.

Yna gall y diffynnydd apelio o'r Llys Apêl i'r Goruchaf Lys ar bwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cenedlaethol.

### Datblygu ymhellach, tudalen 111

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

### Chwilio'r we, tudalen 111

1. Cyfreithwyr, y cyfeirir atyn nhw fel Erlynwyr y Goron.
2. 'Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn erlyn achosion troseddol sydd wedi cael eu hymchwilio gan yr heddlu a sefydliadau ymchwiliadol eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae'r CPS yn annibynnol, ac rydym yn gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol o'r heddlu a'r llywodraeth.  
Ein dyletswydd yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir, ac i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell ble bynnag fo'n bosibl.'  
(Ffynhonnell: <https://www.cps.gov.uk/>)

### Gweithgaredd 3.7, tudalen 111

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Gweithgaredd 3.8, tudalen 113**

Y Llys Ynadon	Llys y Goron	Y Llys Apêl (Adran Droseddol)	Y Goruchaf Lys
<p>Tri ynad sy'n penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog ai peidio a pha ddedfryd sy'n briodol.</p> <p>Clerc cyfreithiol: wedi derbyn hyfforddiant cyfreithiol i gynorthwyo'r tri ynad.</p> <p>Bydd cyfreithiwr fel arfer yn cynrychioli'r diffynnydd.</p> <p>Bydd y CPS yn cyflwyno'r achos ar ran yr erlyniad.</p> <p>Pwerau dedfrydu yn gyfyngedig i chwe mis a/ neu ddirwy o £5,000 am un drosedd; mae hyn yn cael ei ddyblu ar gyfer dwy drosedd neu fwy.</p> <p>Yn gwrando ar tua 95% o bob achos troseddol.</p> <p>Gall ddelio â materion cyn yr achos fel mechnïaeth.</p> <p>Gallan nhw wrando ar achosion ynadol neu achosion neillfordd profadwy.</p>	<p>Treial gan reithgor: mae'r rheithgor yn cynnwys 12 aelod o gymdeithas – lleygwyr sydd ddim wedi cael hyfforddiant cyfreithiol.</p> <p>Mae'r rheithgor yn gwrando ar dystiolaeth yr erlyniad a'r amddiffyniad. Gall aelodau'r rheithgor gymryd nodiadau a gofyn cwestiynau i'r barnwr. Bydd y rheithgor yn ymddeol ac yn ystyried y rheithfarn, yn breifat. Yna byddan nhw'n penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddiueog.</p> <p>Bydd y barnwr yn cynnal cyfraith a threfn yn y llys, yn sicrhau treial teg, yn cynghori'r rheithgor ar y gyfraith ac yn pasio dedfryd addas.</p> <p>Bydd bargyfreithwyr yn cynrychioli'r diffynnydd. Bydd y CPS yn cyflwyno'r achos ar ran y Goron.</p> <p>Mae pwerau dedfrydu'r Goron yn anghyfyngedig.</p> <p>Bydd y llys hwn yn gwrando ar achosion neillfordd profadwy a throseddau ditiadwy.</p>	<p>Mae achosion yn cael eu clywed gan farnwyr – tri fel arfer.</p> <p>Does dim rheithgor yn y llys apêl.</p> <p>Llys apêl yw hwn i benderfynu a yw'r penderfyniad gafodd ei wneud yn Llys y Goron yn ddiogel neu beidio.</p> <p>Rhaid cael caniatâd i apelio.</p> <p>Nid yw'n cynnal ail dreial ond gall roi cyfarwyddyd i un gael ei gynnal. Gall y llys ddileu'r rheithfarn neu amrywio dedfryd (ei gwneud yn hirach neu'n fyrrach). Felly, does dim pwerau dedfrydu yn cyfyngu ar y llys hwn.</p>	<p>Mae deuddeg o Ustusiaid y Goruchaf Lys yn eistedd yn y llys hwn.</p> <p>Roedden nhw'n arfer cael eu galw'n arglwyddi'r gyfraith.</p> <p>Roedd yn arfer cael ei alw'n D'r Arglwyddi.</p> <p>Dim rheithgor.</p> <p>Hwn yw'r llys uchaf yn hierarchaeth y llysoedd a gall achos fynd ymlaen i'r Goruchaf Lys os yw'n ymwneud â phwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cyffredinol i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid cael caniatâd yma.</p> <p>Bydd y llys yn rhwymo'r penderfyniadau cafodd eu gwneud gan yr holl lysoedd is.</p> <p>Does dim cyfyngiadau dedfrydu.</p>

**Gweithgaredd 3.9, tudalen 116**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Gweithgaredd 3.10, tudalen 117**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Chwilio'r we, tudalen 118

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Gweithgaredd 3.11, tudalen 121

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Gweithgaredd 3.12, tudalen 122

#### Rheithiwr

1. Rydw i'n aelod cyffredin o'r cyhoedd, heb hyfforddiant na gwybodaeth gyfreithiol.
2. Rydw i'n cael fy newis ar hap i gymryd rhan, gan fod enwau yn cael eu cymryd o'r gofrestr etholiadol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi fod rhwng 18 a 75 oed, ac wedi byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw am bum mlynedd neu ragor a does gen i ddim euogfarnau troseddol diweddar.
3. Llys y Goron.
4. Troseddau neillffordd profadwy (os ydyn nhw'n cael eu clywed yn Llys y Goron) neu droseddau ditiadwy.
5. Fy rôl yw gwrandao ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno yn y llys ac yna penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddiueog. Gall y barnwr gynghori ar bwyntiau cyfreithiol a gallaf gymryd nodiadau yn ystod y triail a gofyn cwestiynau, drwy'r barnwr, os oes angen.

#### Ynad

1. Rydw i hefyd yn cael fy ngalw yn ynad heddwch a byddaf yn cael fy mhenodi i'r rôl hon. Dydw i ddim wedi cael hyfforddiant cyfreithiol a does gen i ddim gwybodaeth gyfreithiol.
2. Rydw i'n gwneud cais am y swydd hon ac mae'n rhaid bod rhwng 18 a 65 oed i gael eich penodi.
3. Y Llys Ynadon.
4. Troseddau ynadol a/neu droseddau neillffordd profadwy (os ydyn nhw'n cael eu clywed yn y Llys Ynadon).
5. Byddaf yn cael hyfforddiant a chymorth i gyflawni fy swydd. Fy rôl yn y llys yw penderfynu a yw achos wedi cael ei brofi gan yr erlyniad a hefyd penderfynu ar ddedfryd addas.

### Gweithgaredd 3.13, tudalen 122

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

### Chwilio'r we, tudalen 124

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Chwilio'r we, tudalen 125

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

### Gweithgaredd 3.14, tudalen 126

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

### Gweithgaredd 3.15, tudalen 126

Nid oes ateb yn cael ei ddarparu.

**Chwilio'r we, tudalen 126**

Nid oes atebion yn cael eu darparu. Darparwyd cysylltiadau i'r we yn y dasg i gynorthwyo â'r ddadl.

**Chwilio'r we, tudalen 127**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Gweithgaredd 3.16, tudalen 128**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Chwilio'r we, tudalen 129**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.

**Chwilio'r we, tudalen 130**

Nid oes atebion yn cael eu darparu.



# Uned 4 Trosedd a Chosb

## Chwilio'r we, tudalen 131 (brig)

Mae'r Senedd yn llunio deddfwriaeth (Deddfau Seneddol neu ddeddfu seneddol) drwy broses ddemocrataidd fanwl sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig ac aelodau Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin. Barnwyr anetholedig sy'n gyfrifol am lunio deddfau gan farnwyr pryd bynnag bydd achos yn ymddangos yn y llys. Gall aelodau uwch y farnwriaeth ddeddfu drwy gynsail farnwrol a dehongli statudol.

## Chwilio'r we, tudalen 131 (gwaelod)

Mae'r broses ddeddfu yn dechrau gyda Mesur, sy'n cael ei chyflwyno gan y llywodraeth, ASau unigol neu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Bydd Mesur yn mynd drwy sawl cam yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Gall newidiadau gael eu gwneud ond mae'n rhaid i'r ddau Dŷ gytuno ar y rhain. Mae technegau ar gael sy'n golygu gall Mesur ddod yn gyfraith heb gymeradwyaeth yr Arglwyddi. Yr enw ar gyfraith sy'n cael ei llunio gan y Senedd yw cyfraith gynradd.

## Gweithgaredd 4.1, tudalen 132

Mae cyfraith newydd arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'r Senedd ar ffurf **Mesur**.

Pan fydd y Mesur yn cael ei ystyried yn y Senedd bydd yn destun sawl **dadl**.

Mae Mesur yn **gynnigar** gyfer cyfraith newydd neu newid i gyfraith sy'n bodoli'n barod.

Enw un o siambrau'r Senedd yw **Tŷ'r Cyffredin**.

Enw'r siambr arall yw **Tŷ'r Arglwyddi**.

Ar ôl i Fesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol mae'n cael ei alw'n ddarn o **ddeddfwriaeth**.

Cam olaf llunio Deddf Seneddol yw'r Cydsyniad Brenhinol sy'n cael ei roi gan y **Brenin/Brenhines**.

Mae'r broses o gynnwys aelodau Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin yn **ddemocrataidd** iawn.

Ar ôl i Fesur basio drwy'r holl gamau mae'n dod yn **Ddeddf** Seneddol.

## Datblygu ymhellach, tudalen 132

Y dasg yw gwyllo clip fideo, felly nid oes angen ateb.

## Atebion enghreifftiol, tudalen 134

Ateb 1: Byddai'r ateb hwn yn cael 2/4 oherwydd, er ei fod yn ddisgrifiad cywir o gynsail farnwrol, does dim digon o eirfa arbenigol fel cynsail farnwrol a chynsail wreiddiol. Hefyd, does dim cyfeiriad at ddehongli statudol.

Ateb 2: Byddai'r ateb hwn yn cael 3/4 gan ei fod yn disgrifio cynsail farnwrol ac yn rhoi enghraifft o esgeuluster. Fodd bynnag, byddai'n bosibl ei wella drwy gynnwys y ffaith bod yn rhaid i achosion yn y dyfodol fod yn debyg a rhaid i achosion is yn hierarchaeth y llysoedd ddilyn cyseiliau. Does dim cyfeiriad at ddehongli statudol.

## Datblygu ymhellach, tudalen 134

*Ratio decidendi* achos yw'r rhesymau dros y penderfyniad ac maen nhw'n rhwymol ar achosion tebyg yn y dyfodol.

*Obiter dicta* penderfyniad yw'r pethau eraill a gafodd eu dweud 'gyda llaw' ond sydd ddim yn ganolog i'r penderfyniad. Dydyn nhw ddim yn rhwymo achosion yn y dyfodol ond gallan nhw fod yn berswadiol.

**Profi eich hun, tudalen 134**

1. Y Darlleniad Cyntaf, Cam y Pwyllgor yr Ail Ddarlleniad, Cam yr Adroddiad, y Trydydd Darlleniad a Chydsyniad Brenhinol.
2. Mesur.
3. *Donoghue v Stevenson* a *Daniels v White*.
4. *Whitey v Chappell*.
5. Y Llysoedd uwch, yn benodol y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.

**Gweithgaredd 4.2, tudalen 135**

1. Deddfau Seneddol, offerynnau statudol (math o ddeddfu dirprwyedig) cyfraith yr UE a chyfraith gwlad/gyffredin (deddfu gan farnwyr).
2. Os yw'n hen benderfyniad ac mae angen ei ddiweddarau.
3. Rhai llai difrifol.
4. Pob un.
5. 90%.
6. Dydy ynadon ddim yn weithwyr cyfreithiol proffesiynol a dydyn nhw ddim yn cael eu talu gan eu bod nhw'n wirfoddolwyr.
7. Barnwyr cylchdaith a barnwyr yr Uchel Lys.
8. Siawnsri, yr Adran Deulu, Adran Mainc y Frenhines.
9. Yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, Llundain.
10. Y Goruchaf Lys.

**Chwilio'r we, tudalen 135**

Cynnig yw hwn i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf difrifol a pharhaus sy'n wynebu deg o'r carchardai mwyaf heriol.

Bydd y pwyslais ar leihau trais drwy gyflwyno gwelliannau diogelwch sylweddol er mwyn rhoi sylw i gyffuriau a herio pob math o ymddygiad sarhaus.

Bydd buddsoddiad ychwanegol mewn arweinyddiaeth ac adnoddau dynodedig i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â chyffuriau, diogelwch ac adeiladau.

Bydd arfer da yn cael ei ledaenu ar draws ystadau'r carchardai – gan arwain yn y pen draw at leihau aildroseddu a dioddefwyr trosedd yn y dyfodol.

Bydd y project yn canolbwyntio ar herio ymddygiad treisgar ac aflonyddgar ac mae'n cynnwys cyllid o \$10 miliwn i ymladd cyffuriau, gwella diogelwch ac, yn hollbwysig, gwella'r gallu i arwain drwy gynnig hyfforddiant newydd.

Bydd llywodraethwyr pob carchar yn cael sganwyr newydd a fydd yn gallu canfod pecynnau y tu mewn i gyrff, a chŵn synhwyro sydd wedi'u hyfforddi i ganfod sylweddau seicoweithredol newydd.

Bydd rheolwyr yn hyfforddi ac yn cefnogi staff i osod y disgwyliadau uchaf ar gyfer carcharorion a herio ymddygiad treisgar ac aflonyddgar.

Bydd yn atal llif cyffuriau a ffonau i'r carchardai, yn gwella diogelwch a gwedduster, ac yn datblygu safonau arwain newydd.

### **Datblygu ymhellach, tudalen 136**

Mae MAPPA yn galluogi asiantaethau rheolaeth gymdeithasol i ddod ynghyd i ystyried dulliau llwyddiannus o reoli troseddwyd treisgar a throseddwyd rhyw. Mae'r rhain yn cynnwys yr heddlu, ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchar. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth, datgeliad ac asesu risg, ac, yn bwysig iawn, maen nhw'n rhoi cynlluniau rheoli risg ar waith.

### **Chwilio'r we, tudalen 138**

Dylech chi nodi'r ffaith fod y gosb yn cynyddu wrth i'r drosedd neu'r gweithredoedd fynd yn fwy difrifol. Hefyd, dylech chi ystyried ffeithiau sy'n gwneud y drosedd yn fwy difrifol (ffactorau gwaethybol) neu weithredeodd sy'n gwneud y drosedd yn llai difrifol (ffactorau lliniarol).

### **Datblygu ymhellach, tudalen 140**

Gallai Colin Stagg gael ei ystyried o dan y model rheoli troseddau. Caniatwyd apêl i Siôn Jenkins felly cafodd ei drin o dan y model trefn briodol. Cafodd Gary Weddell ei ryddhau ar fechnïaeth ar gyhuddiad o lofruddiaeth ac felly y model trefn briodol oedd cyfiawnder, ac mae hyn i'w weld yn yr egwyddor dieuog nes y caiff ei brofi'n euog.

### **Ateb enghreifftiol, tudalen 141**

Byddai'r ateb hwn yn cael 5/6 gan ei fod yn rhoi disgrifiad manwl o fodel cyfiawnder fyddai'n gallu bod yn gymwys i achos Colin. Mae rhywfaint o ddefnydd o eirfa arbenigol, gyda thermau fel llinell gydosod a dull goddef dim. Byddai wedi cael ateb llawn petai wedi cynnwys rhyw gyfeiriad at ddamcaniaeth troseddegol fel realaeth y dde, neu ystyriaeth o faes y gyfraith sy'n hyrwyddo'r model hwn, fel cynyddu'r amser gall pobl sy'n cael eu hamau o derfysgaeth gael eu cadw yn y ddalfa cyn eu cyhuddo.

### **Gweithgaredd 4.3, tudalen 142**

Gallwch wirio eich atebion gan ddefnyddio tudalennau 214–215 yn y gwrslyfr.

### **Gweithgaredd 4.4, tudalen 142**

I gael syniadau ac ysbrydoliaeth, gwylwch 'Criminal Justice System' ar YouTube (<https://www.youtube.com/watch?v=PMAI2yNJOHc>).

### **Profi eich hun, tudalen 142**

1. Herbert Packer.
2. Cydnabod yr angen am ragofalon gweithdrefnol gan yr heddlu yn sgil cyflwyno Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984.  
Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn golygu bod modd archwilio arferion cyfiawnder troseddol yn drylwyr o safbwynt hawliau dynol.  
Dileu'r rheol ar 'erlyniad dwbl' am lofruddiaeth a throseddau difrifol eraill.  
Mae cyfweliadau'r heddlu bellach yn cael eu recordio ac mae gan y rhai a ddrwgdybir yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.
3. Damcaniaeth realaeth y chwith o droseddoldeb.
4. Damcaniaeth realaeth y dde o droseddoldeb.
5. Colin Stagg.

**Gweithgaredd 4.5, tudalen 143**

Gallai atebion fod yn debyg i'r rhai canlynol:

- Eich moesau/cydwbybod.
- Safbwyntiau crefyddol.
- Magwraeth a dylanwad rhieni ac eraill.

**Gweithgaredd 4.6, tudalen 145**

Gallwch wirio eich ateb gan ddefnyddio tudalennau 220–221 yn y gwrslyfr.

**Gweithgaredd 4.7, tudalen 146**

- Gall mathau mewnol o reolaeth gymdeithasol fel cydwbybod, magwraeth a thraddodiadau teuluol wneud i unigolyn ufuddhau i'r gyfraith. Yn aml bydd crefydd yn ein persawdio i beidio â chyflawni gweithredoedd troseddol.
- Mae pwysau allanol yn perswadio neu'n gorfodi aelodau o'r gymdeithas i gydymffurfio â'r rheolau. Mae'r math mwyaf amlwg a gweledol o reolaeth gymdeithasol yn cael ei arfer gan bobl a sefydliadau sydd wedi'u grymuso'n benodol i orfodi pobl i gydymffurfio â deddfau cymdeithasol.
- Gwasanaeth yr Heddlu, llysoedd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai EM yw'r asiantaethau rheolaeth gymdeithasol allanol mwyaf amlwg.
- Ystyr gorfodaeth yw defnyddio grym i gyflawni'r nod a ddymunir. Gall fod yn gorfforol neu'n ddi-drais. Er enghraifft, mae gan yr heddlu a'r gwasanaethau carchardai y pŵer i gyfyngu ar ryddid unigolyn. Mae cadw dan orfodaeth yn cael ei oruchwylio gan Wasanaeth Carchardai EM.
- Mae ofn cosb yn rhan annatod o ataliaeth lle mae cosb yn cael ei defnyddio fel bygythiad i atal pobl rhag troseddu.
- Mae gan gysyniad ataliaeth ddwy brif ragdybiaeth: ataliaeth unigol ac ataliaeth gyffredinol.
- Bydd y llysoedd yn rhoi dedfrydau er mwyn atal pobl rhag cyflawni rhagor o droseddau. Er enghraifft, dedfryd ohiriedig neu ryddhad amodol.
- Damcaniaeth rheoli: Dadleuodd Walter C. Reckless fod cyfuniad o gyfyngiant seicolegol mewnol a chyfyngiant cymdeithasol allanol yn atal pobl rhag gwyro oddi wrth normau cymdeithasol.
- Mae Travis Hirschi yn pwysleisio pwysigrwydd rhwymyn yr unigolyn â chymdeithas wrth bennu ymddygiad cydymffurfiol.

**Chwilio'r we, tudalen 147**

Mae David Cameron wedi dweud bod yn rhaid i bob dedfryd droseddol gael elfen o 'gosb' yn ogystal ag adsefydlu. Dywedodd fod hyn yn ymateb 'cadarn ond call' i droseddu. Mae'n credu mai dyma beth mae cymdeithas yn dymuno ei gael ac mai dyma mae dioddefwyr yn ei haeddu. Dylai fod cymhellion i sicrhau nad yw troseddwr yn dychwelyd i'r carchar ar ddiwedd eu dedfryd.

**Datblygu ymhellach, tudalen 148**

O ganlyniad i gymryd rhan mewn project cyfiawnder adferol, cafodd Peter Woolf, oedd wedi gwneud gyrfa o fod yn droseddwr, ei adsefydlu. Cafodd gyfarfod gyda dioddefwr ei fwrgeriaeth, Will Riley, a sylweddolodd yr effaith roedd ei droseddoldeb wedi ei gael ar ei ddioddefwyr.

### Ateb enghreifftiol, tudalen 149

Byddai'r ateb hwn yn sgorio 8 marc. Mae'r adran sy'n ymdrin ag ad-dalu rhywfaint yn well na'r un ar adsefydlu. Mae'n esbonio beth yw ystyr pob nod ac mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o gosbau sy'n ceisio cyflawni'r nodau hyn. I gyrraedd y band marciau uchaf mae angen mwy o fanylder. Gellid ychwanegu at hyn drwy ystyried Cysylltiadau â damcaniaethau troseddegol, mwy o derminoleg arbenigol a chosbau eraill sy'n ceisio cyflawni nod adsefydlu.

### Gweithgaredd 4.8, tudalen 151

Gall unrhyw un o nodau cosbi gael eu cyfiawnhau gan yr erthygl. Er enghraifft:

- **Ad-dalu:** dial am gario arf gyda dedfryd o garchar hirach i gydnabod y perygl sy'n gysylltiedig.
- **Amddiffyn y cyhoedd:** oherwydd perygl yr arf mae angen amddiffyn y cyhoedd a byddai carchar yn gwneud hyn.
- **Adsefydlu:** gall colli ei ryddid arwain at ddiwygio'r troseddwr a'i atal rhag ailadrodd y drosedd.
- **Ataliaeth:** gall dedfrydau hirach o garchar atal eraill, yn ogystal â'r unigolyn dan sylw, rhag ymddwyn mewn ffordd debyg felly byddan nhw ddim yn dychwelyd i'r carchar.
- **Condemniad:** gallai dedfryd hirach o garchar gael ei gweld fel cymdeithas yn mynegi ei anghymeradwyaeth o'r drosedd beryglus hon.

### Profi eich hun, tudalen 151

1. Gorchymyn cymunedol – gyda gofyniad gan y gwasanaeth prawf o bosibl.
2. Ad-dalu.
3. Ataliaeth.
4. Ataliaeth.
5. Achos Karen Matthews.
6. Trwsio/gwneud iawn neu roi rhywbeth yn ôl. Yn aml drwy ddefnyddio cosb ariannol.
7. Henffasiwn.
8. Amddiffyn cymdeithas.

### Datblygu ymhellach, tudalen 151

Mae menywod yn fwy tebygol o gael dedfrydau byr oherwydd y math o droseddau maen nhw'n eu cyflawni. Mae ystadegau yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o aildroseddu na dynion. Mae dedfrydau byr o garchar yn cymryd menywod i ffwrdd o'u teuluoedd ac o bosibl eu plant. Gall carchar gael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl hefyd. Hefyd, oherwydd eu bod yn cael dedfrydau byr o garchar, dydyn nhw ddim yn cael amser i dderbyn y cymorth maen arnyh nhw ei angen.

### Gweithgaredd 4.9, tudalen 152

A – 3 B – 4 C – 2 CH – 1

**Chwilio'r we, tudalen 152**

Mae'r carchar yn academi droseddu lle mae troseddwr yn dysgu oddi wrth ei gilydd sut i fod yn well troseddwr. Dydy'r carchar ddim yn helpu pobl i adsefydlu. Gall cysylltiadau teuluol helpu i atal aildroseddu ond dydy carchardai ddim yn annog teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Dylai llai o bobl gael eu hanfon i'r carchar, a dylai'r carchar fod ar gyfer y rhai mwyaf peryglus yn unig. Yn hytrach, dylid defnyddio cosbau eraill fel cyrffiw gyda dulliau monitro electronig ac addysg neu gyflogaeth.

**Gweithgaredd 4.10, tudalen 154**

Meddyliwch am addurno canolfan gymunedol neu glirio rhan o ardd sydd wedi gordyfu.

**Datblygu ymhellach, tudalen 155 (brig)**

O ystyried bod bron i £2 biliwn o ddirwyon llys a gorchmynion atafaelu heb eu talu yn 2012, mae hyn yn awgrymu nad yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. Mae hyn oherwydd nad yw swm mawr o arian yn cael ei dalu.

**Profi eich hun, tudalen 155**

1. Talu'n ôl i'r gymuned (gwaith di-dâl 40–300 awr), triniaeth a rhaglenni (i helpu gyda chaethiwed a phroblemau iechyd meddwl), neu gyfyngiadau fel cyrffiw, tag electronig neu amod preswyllo.
2. Mae nifer y bobl sy'n cael eu galw'n ôl i'r ddalfa wedi cynyddu, yn enwedig ymhlith menywod. Cafodd 8,825 o bobl oedd yn bwrw dedfrydau llai na 12 mis o hyd eu galw'n ôl i'r carchar yn ystod y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2017. Nid yw cyfnod mewn carchar wedi bod yn effeithiol o ran lleihau aildroseddu – mae bron hanner yr oedolion (48%) yn cael eu dyfarnu'n euog eto cyn pen blwyddyn ar ôl cael eu rhyddhau. Yn achos y rhai sydd yn y carchar ar ddedfrydau llai na 12 mis, mae'r ganran hon yn codi i 64%.
3. Rheolwr troseddu o'r Gwasanaethau Prawf.
4. Mae cyfiawnder adferol yn canolbwyntio ar adsefydlu troseddwr drwy gymodi gyda'r dioddefwyr a'r gymuned yn gyffredinol.
5. Cadw yn y ddalfa, cyrffiw, ysbaddu cemegol a gwaharddiadau gyrru.

**Datblygu ymhellach, tudalen 155 (gwaelod)**

Cysylltwch â'ch gorsaf heddlu leol i gael manylion am ardal y gylchdaith gymunedol sy'n gyfrifol am eich ysgol/coleg. Efallai byddan nhw'n fodlon ymweld â chi. Hefyd, cysylltwch â Phroject yr Ynadon yn y Gymuned (Magistrates in the Community: MIC) (menter gan Gymdeithas yr Ynadon) sydd â thimoedd o ynadon sy'n fodlon ymweld ag ysgolion/collegau.

**Gweithgaredd 4.11, tudalen 157**

1. Deddf Erlyniad Troseddau 1985.
2. Gan y llywodraeth drwy drethu.
3. (i) cynorthwyo'r heddlu i benderfynu pa achosion ddylai gael eu herlyn; (ii) pennu'r cyhuddiadau priodol a chynghori'r heddlu; (iii) paratoi achosion a'u cyflwyno yn y llys; (iv) rhoi cymorth i ddioddefwyr a thystion.
4. Bod yn annibynnol a theg, gonest ac agored, trin pawb gyda pharch, ymddwyn yn broffesiynol ac anelu at ragoriaeth.
5. Mae 13 ardal ddaearyddol ar draws Cymru a Lloegr. Hefyd mae gwasanaeth o'r enw CPS Direct. Pennaeth y Gwasanaeth yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, sef Max Hill adeg ysgrifennu'r llyfr hwn (2019).
6. (i) Prawf tystiolaethol (ii) prawf budd y cyhoedd.

## Chwilio'r we, tudalen 158

Am ganrifoedd, Tŷ'r Arglwyddi oedd y Goruchaf Lys Apêl yn y DU ar gyfer pwyntiau cyfreithiol mewn achosion sifil, ac ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon mewn achosion troseddol.

Roedd hyn yn rôl anghyffredin i gorff deddfwriaethol: yn y rhan fwyaf o seneddau eraill mae'r farnwriaeth ar wahân i'r corff deddfu (term arall am y senedd).

O 1 Hydref 2009 cafodd pwerau barnwriaethol Tŷ'r Arglwyddi eu trosglwyddo i Oruchaf Lys newydd, ar wahân y DU.

## Chwilio'r we, tudalen 159

Y dasg yw gwyllo clip fideo, felly nid oes angen ateb.

## Gweithgaredd 4.12, tudalen 160

1. Troseddwy'r risg uchel.
2. Cwmnïau sy'n cael eu rhedeg yn breifat sy'n monitro troseddwy'r risg canolig a risg isel.
3. Mae rheolwr troseddu yn goruchwyllo'r gwaith o fonitro ac adsefydlu troseddwy'r. Os yw'n briodol, gall amodau yn ymwneud ag addysg a thriniaeth fod ynghlwm â'r gorchymyn.
4. Mae'n rhaid i garcharorion sydd wedi bwrw dedfrydau o rhwng dau ddiwrnod a dwy flynedd dreulio o leiaf 12 mis ar brawf ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau.
5. Mynychu canolfannau triniaeth am broblemau fel cyffuriau neu alcohol. Cyrisiau addysg a all fod yn gysylltiedig â maes y drosedd. Hefyd, gwaith di-dâl yn y gymuned.
6. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael ei ariannu gan y llywodraeth drwy drethu.
7. Mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn fusnesau ac felly maen nhw'n eu hariannu eu hunain.
8. Gwaith yn y gymuned fel garddio a chasglu sbwriel.

## Datblygu ymhellach, tudalen 160

Mae'r cwmnïau prawf preifat wedi cael eu beirniadu'n hallt mewn adroddiad gan y llywodraeth. Mae'r cymorth sydd ei angen ar y cwmnïau hyn yn golygu bod yn rhaid i'r llywodraeth fuddsoddi dros hanner biliwn o bunnoedd ynddyn nhw.

Bydd contractau wyth cwmni preifat sy'n rhedeg 21 'cwmni adsefydlu cymunedol' yng Nghymru a Lloegr yn dod i ben yn 2020, ddwy flynedd yn gynt na'r hyn a gytunwyd.

## Profi eich hun, tudalen 161

1. Gan y llywodraeth drwy drethu, a threth y cyngor.
2. Prawf Tystiolaethol, a Phrawf Budd y Cyhoedd.
3. Yr heddlu.
4. Arestio, chwilio, cadw, cyfweld, ac ati.
5. Gan y llywodraeth drwy drethu.
6. Y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB).
7. Mae'r system yn un wrthwynebus, sy'n golygu bod y partiön yn gyfrifol am eu hachosion, a'r barnwr yn gweithredu fel dyfarnwr. Mae'n rhaid i'r barnwr sicrhau, gymaint ag sy'n bosibl, bod y rheithgor yn deall y dystiolaeth a'r materion. Bydd y barnwr yn delio ag unrhyw bwyntiau cyfreithiol mae'n rhaid penderfynu yn eu cylch, ac yn rhoi cyngor i'r rheithgor ar sut i gymhwyso'r gyfraith i'r ffeithiau sydd gerbron. Bydd y barnwr yn rhoi cyngor i'r rheithgor ar y drefn ac yn esbonio eu dyletswyddau. Bydd y barnwr yn sicrhau bod y treial

yn deg, a'i fod yn cydymffurfio â hawliau dynol. Bydd y barnwr hefyd yn cyhoeddi dedfryd os bydd y diffynnydd yn cael ei ganfod yn euog. O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae'n bosibl i farnwr eistedd ar ei ben ei hun, heb reithgor, i benderfynu ar reithfarn.

8. Y llywodraeth yn bennaf, ond mae nifer bach o garchardai yn cael eu rhedeg yn breifat.
9. Cafodd y system ei phreifateiddio'n rhannol gyda Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn goruchwyllo troseddwr risg canolig a risg isel. Fodd bynnag, gwelwyd bod y ddarpariaeth yn wael iawn mewn rhai achosion a bydd nifer o'r contractau yn dod i ben yn gynnar.
10. Amddiffyn y cyhoeddwr drwy adsefydlu troseddwr risg uchel mewn ffordd effeithiol. Mae'n ceisio helpu troseddwr i newid eu bywydau drwy ddelio ag achosion troseddu.

### Gweithgaredd 4.13, tudalen 162

1. • Dylai'r carchar gael ei neilltuo ar gyfer pobl y mae eu troseddau mor ddifrifol fel nad yw'n bosibl iddyn nhw frw eu dedfryd yn y gymuned.
  - Yr unig gyfiawnhad dros ddedfryd o garchar yw rhoi cosb bwylllog i unigolyn am drosedd.
  - Oherwydd bod carchardai yn orlawn mae hyn yn tanseilio effeithlonrwydd addysg, adsefydlu a rhaglenni eraill sy'n ceisio lleihau aildroseddu.
2. • Lleihau achosion diangen o garcharu pobl a hyrwyddo atebion cymunedol i droseddu.
  - Gwella triniaeth ac amodau carcharorion a'u teuluoedd.
  - Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn y system gyfiawnder.
3. • Rheolau carchar.
  - Bywyd yn y carchar.
  - Eich hawliau yn y carchar.
  - Amodau yn y carchar.
  - Sut i gael cymorth yn y carchar.
4. Trwy gasglu a rhannu gwybodaeth glir a chywir am y system garchardai, a hyrwyddo atebion ymarferol ac adeiladol i broblemau sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn.
5. Dydy Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai ddim yn gofyn am arian nac yn derbyn arian gan y llywodraeth ganolog. O ganlyniad, mae'n gwbl ddibynol ar gyfraniadau gwirfoddol i gynnal ei gwaith.
6. Iechyd meddwl, adolygu gofal, cadw pobl allan o'r carchar am byth.

### Gweithgaredd 4.14, tudalen 162

1. 1866.
2. John Howard, un o ddiwygwyr cyntaf y carchardai.
3. Gweithio i leihau troseddu, sicrhau cymunedau mwy diogel, a chael llai o bobl yn y carchar.
4. Mae'r elusen wedi bod yn gweithio gyda heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i gadw cynifer o blant â phosibl allan o'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae'n cyhoeddi data blynyddol am nifer y plant sy'n cael eu harestio ac yn edrych ar ffyrdd o leihau nifer yr arestiadau.
5. Mae'n dadansoddi'r dystiolaeth ac yn hyrwyddo atebion tymor hir i droseddu. Mae'r gwaith wedi gwella'r gyfraith a sicrhau cymorth i bobl ifanc pan maen nhw'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.
6. Mae'n sicrhau bod plant sydd mewn trafferth â'r gyfraith yn cael eu cadw'n ddiogel ac nad ydyn nhw'n troi mewn i oedolion sy'n droseddwr yn y dyfodol. Trwy weithio gyda'r heddlu, roedd gostyngiad o 68% yn nifer yr arestiadau rhwng 2010 a 2017.



### Profi eich hun, tudalen 163

1. Yr heddlu, llysoedd, y farnwriaeth, CPS, carchardai a'r gwasanaeth prawf.
2. Gwrthderfysgaeth, Yr Adran Ymchwiliad Troseddol (CID), arfau tanio.
3. 39.
4. Y prawf tystiolaethol a phrawf budd y cyhoedd.
5. Y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.
6. Yr Uchel Lys, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.
7. A, B, C, CH – yn nhrefn y risg.
8. CEM Birmingham neu CEM Northumberland.
9. Rhan o'r gwasanaeth prawf sy'n cael ei rhedeg yn breifat.
10. Mae Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai yn elusen annibynnol yn y DU sy'n gweithio i greu system gosbi gyfiawn, drugarog ac effeithiol. Mae'n gwneud hyn drwy ymchwilio i'r ffordd mae'r system yn gweithredu; rhoi gwybodaeth i garcharorion, staff a'r cyhoedd; a dylanwadu ar y Senedd, llywodraeth a swyddogion er mwyn diwygio.

### Gweithgaredd 4.15, tudalen 163

1. Pobl ag euogfarnau sy'n wynebu stigma a rhwystrau oherwydd eu record troseddol, yn aml ymhell ar ôl iddyn nhw fwrw eu dedfrydau.
2. Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl ag euogfarnau, gan gynnwys rhedeg gwefan wybodaeth a llinell gymorth gyfrinachol sy'n cael ei rhedeg gan gymheiriaid.
3. Mae gan dros 11 miliwn o bobl yn y DU record troseddol.

Bydd gwaith yr elusen yn amrywio dros amser ond gallai'r math o bolisiau gynnwys y canlynol: defnydd teg o'r system record troseddol gan y wladwriaeth a mynediad teg i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant a'r gwasanaeth ariannol.

### Chwilio'r we, tudalen 165

Mannau dwys a llawn – Gall defnyddio tirlunio a darpariaethau diogelwch fod o gymorth yma.  
Goleuo gwael – Mae golau da ger mynedfeydd yn caniatáu gwelededd da.  
Golygfa wedi'i rhwystro – Dylid osgoi corneli dall os yn bosibl, ond gall goleuo da wella hyn.  
Lleoedd i guddio – Dylid osgoi corneli dall os yn bosibl, ond gall goleuo da wella hyn.  
Gwrychoedd uchel a dail – Hefyd yn gadael i olau ddod i mewn.  
Methu gweld drwy ddrws – Mae drysau gwyr yn sicrhau gwelededd da.

### Gweithgaredd 4.16, tudalen 166

1. Mae gathiau yn cael eu gosod ger y fynedfa i strydoedd cefn er mwyn atal troseddwr.
2. Awdurdodau lleol.
3. Lleihau troseddu ac atal sbwriel rhag cael ei daflu.
4. Gall troseddu symud i rywle arall a gall y gost fod yn ormodol.
5. Preston (Sir Gaerhirfryn) neu Gaerdydd.

**Datblygu ymhellach, tudalen 166 (dde)**

Mae Bastøy yn ceisio canolbwyntio ar newid ffordd o feddwl y troseddwr yn hytrach na chanolbwyntio ar y drosedd. Mae'r defnydd o ecoleg ddynol ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd, a'r rhan mae troseddwr yn ei chwarae ynddo, yn bwysig. Mae eu hymagwedd ddynol a sosio-ecolegol yn allweddol lle mae ymgais i fod yn hunangynhaliol. Mae troseddwr yn gyfrifol am agweddau fel lleihau allyriadau CO<sub>2</sub>, ffermio ac amaethyddiaeth. Hefyd, mae parch gan y naill ochr at y llall yn cael ei annog mewn ymgais i newid meddylfryd troseddwr.

**Datblygu ymhellach, tudalen 166 (chwith)**

Mae llawer iawn o astudiaethau yn gwneud honiadau am effeithiolrwydd yr ymyriad hwn. Mae lonydd â gatiâu yn cyfeirio at y defnydd o gatiâu y gellir eu cloi, sydd fel arfer wedi'u gwneud o ddu ac sydd wedi'u cynllunio i gyfyngu ar fynediad; fel arfer maen nhw'n cael eu gosod i leihau achosion o fwrgeriaeth. Maen nhw hefyd yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cyflawni troseddau eraill sy'n digwydd yn aml mewn lonydd cefn, fel tipio anghyfreithlon, puteindra, baw cŵn a delio â chyffuriau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod lonydd â gatiâu yn ddull effeithiol o leihau bwrgeriaeth gan eu bod yn cynnig rhwystr ffisegol sy'n ei gwneud yn fwy anodd i droseddwr gael mynediad i'r lôn.

**Gweithgaredd 4.17, tudalen 167**

Os ydych chi'n torri'r rheolau mae'n drosedd, os ydych yn oedolyn neu'n berson ifanc. Mae rhifau rheolau'r carchar yn wahanol mewn carchardai a Sefydliadau Troseddwr Ifanc. Troseddwr ifanc yn unig allai gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau am hyd at 21 diwrnod, neu efallai byddai'n rhaid iddyn nhw wneud dwy awr o waith ychwanegol y diwrnod am hyd at 21 diwrnod.

**Gweithgaredd 4.18, tudalen 169**

Diffyg adnoddau: Gall diffyg adnoddau atal rheolaeth gymdeithasol. Os nad oes cyrsiau addysgol ar gael gall fod yn anodd newid meddylfryd troseddwr. Os nad oes triniaeth neu gymorth ar gael mae bwlch yn y ddarpariaeth.

Troseddau na roddwyd gwybod amdany'n nhw: Os nad yw pobl yn rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd dydyn nhw ddim yn gallu ymchwilio i'r drosedd a'i datrys. Felly, dydy hi ddim yn bosibl sicrhau cyfiawnder gan nad yw'r troseddwr yn cael ei gosbi. Mae troseddau fel cam-drin domestig a throseddau coler wen yn enghreifftiau o droseddau na roddir gwybod amdany'n nhw.

Troseddau heb eu cofnodi: Mae'r troseddau hyn yn digwydd ac mae pobl yn rhoi gwybod amdany'n nhw i'r heddlu. Fodd bynnag, mae'r heddlu yn penderfynu peidio â chofnodi'r digwyddiad fel gwir drosedd. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw'n ymchwilio a sicrhau rheolaeth gymdeithasol.

Toriadau cyllid: Mae llawer o'r asiantaethau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â rheolaeth gymdeithasol yn cael eu hariannu gan y llywodraeth a drwy drethu. Fodd bynnag, mae cyllidebau'r asiantaethau wedi cael eu torri yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Golyga hyn fod ganddyn nhw lai o staff ac mae ganddyn nhw lai o adnoddau i sicrhau rheolaeth gymdeithasol.

**Profi eich hun, tudalen 169**

1. Atal troseddu drwy ddylunio amgylcheddol.
2. C. Ray Jeffery.
3. Goleuo da, drysau/fffenestri gwydr neu rai y gellir gweld drwyddyn nhw a dail neu lwyni isel.
4. Y dyluniad traddodiadol yw'r panoptigon, sy'n golygu ei bod yn bosibl gweld popeth. Golyga hyn fod y gweledd yn caethiwo'r carcharorion.
5. Gatiâu dur neu haearn ym mhob pen lôn gefn.

6. Mae ymchwil yn dangos eu bod yn cyfyngu ar fynediad troseddwr ac felly mae troseddau fel bwrgeriaeth yn cael eu hatal.
7. Rhaglenni atgynherthu â thalebau a thactegau addasu ymddygiad.
8. Gorchmynion Ymddygiad Troseddol.
9. Ymddwyn mewn ffordd a allai dramgwyddo, bygwth neu niweidio rhywun arall; cymryd cyffuriau neu alcohol ac achosi difrod i'r carchar neu'r sefydliad troseddwr ifanc. Mae sancsiynau yn cynnwys treulio dyddiau ychwanegol yn y carchar, cael rhybudd a dileu breintiau fel cael teledu yn y gell.
10. Er enghraifft, gall yr heddlu roi rhybudd 'syml' neu rybudd ffurfiol i oedolion sy'n cyfaddef eu bod wedi cyflawni trosedd. Mae hyn er mwyn gallu penderfynu ar yr achos heb erlyniad os yw er budd y cyhoedd i wneud hynny. Gall yr heddlu hefyd gynnig rhybudd 'amodol' os ystyrir bod digon o dystiolaeth i gyhuddo'r troseddwr o'r drosedd, a'i bod er budd y cyhoedd i gynnig y rhybudd amodol. Rhaid i'r troseddwr gyfaddef i'r drosedd hefyd.
11. Toriadau cyllid, preifateiddio'r heddlu a throseddau na roddir gwybod amdany'n nhw.

### Gweithgaredd 4.19, tudalen 171

- |                     |                                    |
|---------------------|------------------------------------|
| 1. Cymru a Lloegr.  | 6. £38,042.28.                     |
| 2. Sweden.          | 7. 25%.                            |
| 3. 77%.             | 8. 26% o fenywod ac 16% o ddynion. |
| 4. Bron i 65,000.   | 9. 5.1.                            |
| 5. Bron i chwarter. | 10. 64%.                           |

### Ateb enghreifftiol, tudalen 172

Byddai'r ateb enghreifftiol yn ennill 7/7 gan ei fod yn archwiliad manwl o'r cyfyngiadau wrth gyflawni rheolaeth gymdeithasol mewn carchardai. Mae nifer o gyfyngiadau ac enghreffftiau wedi'u cynnwys i gefnogi'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud. Efallai mai un cyfyngiad sydd heb ei gynnwys yn yr ateb yw'r broblem yn ymwneud â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, fel 'spice', mewn carchardai.

### Chwilio'r we, tudalen 173

- Cyffuriau fel 'spice'.
- Diffyg staff mewn carchardai.
- Trais.
- Dronau yn danfon cyffuriau a ffonau symudol.

### Datblygu ymhellach, tudalen 173 (brig)

Cynllun gweithredu'r llywodraeth:

- Symud 300 o garcharorion allan ac aildrefnu dalgylchoedd ardaloedd y llysoedd.
- Ychwanegu 32 aelod staff, gan gynnwys llywodraethwr newydd profiadol.
- Adnewyddu celloedd.
- Adolygu trefn ddyddiol y carcharorion, gan gynnwys hawl i gael cawod bob dydd a threulio amser yn yr awyr agored.
- Nodi a lleihau'r cyflenwad cyffuriau.
- Llinell gymorth iechyd meddwl.
- Mwy o gymorth i'r rhai sy'n gadael y carchar.

### Datblygu ymhellach, tudalen 173 (gwaelod)

Yn achos *RvOwen* cafodd mab y diffynnydd ei ladd gan yrrwr diofal a gafodd ddedfryd o 12 mis yn y carchar. Fodd bynnag, roedd wedi gyrru tryc heb yswiriant, nad oedd yn ddiogel i fod ar y ffordd. Hefyd, doedd y gyrrwr erioed wedi pasio prawf gyrru ac roedd yn ddall yn un llygad. Roedd Owen wedi ypsetio gymaint ac roedd yn credu nad oedd y gyrrwr wedi cael ei gosbi'n briodol, gwnaeth ei saethu yn ei gefn a'i fraich. Er iddo gael ei gyhuddo o ymgais i lofruddio, gosododd y rheithgor ei safonau moesol ei hun a chael Owen yn ddieuog.

### Profi eich hun, tudalen 174

1. Mae atgwmpo yn dangos gall troseddwr ddysgu gan ei gilydd sut i gyflawni troseddau gwahanol. Mae hyn yn cysylltu â damcaniaeth dysgu cymdeithasol. Gall amgylchedd y cartref gael effaith ar droseddwr. Os yw'n byw mewn ardal ddifrentiedig, efallai na fydd ganddo lawer o gyfleoedd i fynd yn ei flaen a dod o hyd i waith. Mae hyn yn cysylltu â damcaniaeth Marcsaidd, gan ei bod yn cefnogi'r safbwynt bod statws cymdeithasol anghyfartal yn hyrwyddo trosedd mewn cymdeithas. Os yw pobl yn cyflawni troseddau am resymau moesol, gall hynny arwain at gynnal ffiniau, gan ddangos i bobl beth sy'n dderbyniol mewn cymdeithas. Mae hyn yn dilyn egwyddor swyddogaetholdeb ac mae'n dangos gall troseddau gyflawni diben.
2. Diffyg staff mewn carchardai, diffyg adnoddau addysgol, cyffuriau, trais a thoriadau i gyllidebau.
3. Pan fydd troseddwr yn cyflawni trosedd oherwydd ei fod yn teimlo mai dyna'r peth cywir i'w wneud o safbwynt moesol. Un enghraifft yw hunanladdiad â chymorth.
4. Gallai asiantaethau rheolaeth gymdeithasol ddadlau fod caniatáu rhyddid yn gallu atal y broses o sicrhau euogfarnau. Byddai'r rhyddidau yn cael eu gweld fel cyfyngiad a gallai'r rhain atal rheithfarn euog. Yn aml mae cyfraith hawliau dynol yn cael ei gweld fel hyn.
5. Os bydd troseddwr yn dychwelyd i ffordd o fyw ddifreintiedig maen nhw'n debygol o aildroseddu a mynd yn ôl o bosibl i ffordd o fyw lle maen nhw'n cymryd cyffuriau. Mae hyn yn atal adsefydlu a rheolaeth gymdeithasol.

### Ateb enghreifftiol, tudalen 177

Byddai'r ateb enghreifftiol hwn yn ennill 4/6 marc gan ei fod yn ymateb cytbwys gyda rhai pwyntiau datblygedig sy'n rhoi sylw i'r mater. Mae diffyg enghreifftiau yn yr ateb, fel achosion neu adroddiadau. Er enghraifft, ymchwiliad Stephen Lawrence neu drafodaeth am droseddau heb eu cofnodi.

### Chwilio'r we, tudalen 177

Mae dadl ynghylch a oes cysylltiad rhwng cynnydd mewn troseddau treisgar â thoriadau mewn plismona cymunedol. Mae'r gostyngiad yn niferoedd yr heddlu wedi arwain at ddadl wleidyddol rhwng y ceidwadwyr a llafur. Gwnaeth niferoedd yr heddlu leihau o 144,353 yn 2009 i 123,142 ym mis Mawrth 2017. Mae'r heddlu ac asiantaethau tebyg yn credu bod y diffyg swyddogion yn ei gwneud yn fwy anodd atal troseddu. Mae hyn yn cynnwys troseddau cylllyll a throseddau gynnu. Fodd bynnag, mae eraill yn honni ei fod yn fwy anodd profi'r cysylltiad hwn. Maen nhw'n awgrymu nad yw'r ystadegau wedi dangos cynnydd mewn troseddu bob amser a bod ffyrdd o gofnodi troseddau wedi newid dros amser.

## **Datblygu ymhellach, tudalen 178**

Dydy Gwasanaeth Eryl yn Goron ddim wedi bod yn effeithiol bob amser. Er enghraifft, mae wedi methu rhoi tystiolaeth i ddiffnyddion mewn achosion o dreisio. Mae o leiaf pedwar treial yn ymwneud â threisio wedi methu neu wedi cael eu gollwng yn fuan cyn y treial. Un enghraifft yw treial treisio a fethodd ar ôl i Wasanaeth Eryl yn Goron beidio â chyflwyno unrhyw dystiolaeth pan ddaeth yn amlwg nad oedd lluniau ar ffôn y diffnydd ohono ef yn y gwely gyda'i ddiodefwr honedig wedi cael eu datgelu.

## **Gweithgaredd 4.20, tudalen 179**

Mae adroddiad swyddogol yn awgrymu bod carcharorion wedi lladd eu hunain oherwydd yr amodau yn y carchar. Dydy'r carcharorion ddim yn teimlo'n ddiogel ac maen nhw'n credu eu bod mewn perygl o ddiodef trais difrifol, ac mae'n bosibl y byddan nhw'n dewis lladd eu hunain. Mae problemau fel y defnydd o gyffuriau ac iechyd meddwl yn gwaethygu'r sefyllfa.

## **Chwilio'r we, tudalen 179**

Cafodd Connor Marshall, 18 oed, ei guro i farwolaeth gan David Braddon oedd ar brawf am droseddau cyffuriau ac am ymosod ar swyddog yr heddlu. Fodd bynnag, ni chafodd Braddon ei oruchwilio'n gywir. Roedd wedi methu wyth apwyntiad prawf tra ei fod yn cael ei fonitro gan gwmni adsefydlu cymunedol.

## **Chwilio'r we, tudalen 180**

Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan fawr yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae 66,344 o bobl – gwirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig – yn gweithio i elusennau yn y sector hwn.

Ymhlith y cymorth sy'n cael ei roi ganddyn nhw mae cymorth ym maes tai, help i gael swydd, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, mentora, eiriolaeth, cyllid, cymorth gyda budd-daliadau a dyledion, gwasanaethau iechyd meddwl a chyngor cyfreithiol. Mae'r rhestr yn parhau.

Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

## **Datblygu ymhellach, tudalen 181**

Darllen personol er mwyn datblygu.

## **Profi eich hun, tudalen 181**

1. Yr heddlu, Gwasanaeth Eryl yn Goron, y farnwriaeth, y gwasanaeth prawf, carchardai, elusennau a charfanau pwyso.
2. Ni wnaeth yr heddlu ymchwilio i'r achos hwn yn gywir. Gwnaethon nhw fethu tystiolaeth hanfodol ac roedden nhw'n amharod i ymchwilio i bobl wyn am lofruddio dyn du. Cafodd yr heddlu eu cyhuddo o fod yn sefydliadol hiliol hyd yn oed.
3. Rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yw bod yn llais i'r bobl a dal yr heddlu i gyfrif.
4. Does ganddyn nhw ddim cysylltiad â'r heddlu ac maen nhw'n dod i benderfyniadau yn annibynnol.
5. Byddai'r ystadegau yn awgrymu nad ydyn nhw. Maen nhw wedi cael eu labelu fel dynion gwyn, canol oed.
6. Mater o farn yw hyn, ond gallai fod yn doriadau cyllid neu'r defnydd o gyffuriau.

7. Cwmnïau adsefydlu cymunedol yw rhan breifat y gwasanaeth prawf. Maen nhw'n monitro troseddwyd risg canolig a risg isel.
8. Maen nhw'n chwarae rhan fawr i hyrwyddo a chyflawni rheolaeth gymdeithasol. Er enghraifft, byddan nhw'n ymgyrchu i wella amodau yn y carchar a rhoi cymorth i garcharorion a'u teuluoedd.

### Gweithgaredd 4.21, tudalen 182

Ymhlith yr erthyglau yr awgrymir eich bod yn darllen mae:

- Toyin Owoseje (2019, 12 Ionawr), 'Prison Sentences of Less than Six Months Should be Abolished, Says Minister', *Independent*, <https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/prison-jail-sentences-less-six-months-minister-a8724311.html>.
- Jack Maidment (2018, 26 Mehefin) 'Scrap Jail Terms of Less than 12 Months for All but the Most Serious Offences, Says Prisons Minister', *Telegraph*, <https://www.telegraph.co.uk/politics/2018/06/26/scrap-jail-terms-less-12-months-serious-offences-says-prisons/>.

Hefyd, dylech ystyried Bromley Fact Files (ar wefan Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai) i gael ystadegau i gefnogi eich dadl.